



Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD GWENER, 28AIN TACHWEDD, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting

Pwynt Cyswllt

Sera Jane Whitley

serajaneWhitley@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 20 Tachwedd 2025)

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan
Cyng. Gary Pritchard
Cyng. Julie Fallon
Cyng. Mark Pritchard
Cyng. Dave Hughes
Cyng. Nia Jeffreys

Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Wrecsam
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Edgar Wyn Owen

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol

Dafydd Gibbard
Dylan Williams
Rhun ap Iared
Neal Cockerton
Graham Boase
Alwyn Jones
Jonathan Cawley

Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Wrecsam
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Alwen Williams
Dewi Aeron Morgan
Iwan G Evans

Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor
Prif Swyddog Cyllid
Swyddog Monitro

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 19 MEDI 2025 5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 19 Medi, 2025 fel rhai cywir.

5. DATGANIAD O GYFRIFON Y BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU AM 2024/25 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL 11 - 99

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.

6. FFURFLEN FLYNYDDOL CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU 2024/25 100 - 106

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.

7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26 - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 107 - 110

Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi Cyngor Gwynedd i gyflwyno'r adroddiad.

8. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN TRAWSNEWID A GWELLA 2025-26 111 - 115

Alwen Williams, Prif Weithredwr a Dave Hole, Arweinydd Rhaglen i gyflwyno'r adroddiad.

9. ADRODDIAD CHWARTEROL YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL 116 - 132

Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth i gyflwyno'r adroddiad.

10. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM - CYNLLUN 133 - 142

CYFLAWNI BLYNYDDOL BLWYDDYN 1

Alwen Williams, Prif Weithredwr a Iain Taylor, AMION Consulting i gyflwyno'r adroddiad.

11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau busnes cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a chytuno trefniadau penodi gan gynnwys manylion swydd a amodau a thelerau cyflog fydd yn destun proses recriwtio gystadleuol.

12. PENODI CYFARWYDDWR PORTFFOLIO AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

Alwen Williams, Prif Weithredwr i gyflwyno'r adroddiad.

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD 19/09/25

Yn bresennol: Is-gadeirydd: Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

Y Cynghorwyr: Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Nia Wyn Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Owen (Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Prif Weithredwyr Cyngorau Cyfansoddol: Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Rhun ap Iareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Linda Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), a Gary Williams (Cyngor Sir Ddinbych).

Swyddogion eraill yn bresennol: Alwen Williams (Prif Weithredwr CBC), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro – CBC), Dewi Aeron Morgan (Swyddog Cyllid Statudol y CBC), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid - Cyngor Gwynedd), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd Cyngor Gwynedd), Iain Taylor (AMION Consulting), Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol y CBC), David Hole (Arweinydd Rhaglen Weithredu'r CBC), Adam Graham (Uchelgais Gogledd Cymru), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth - Cyngor Gwynedd) a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth - Cyngor Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cyngorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Cadeirydd), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr – Cyngor Gwynedd), Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2025 fel rhai cywir.

5. SEFYLLFA REFENIW 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD GORFFENNAF 2025

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.

PENDERFYNWYD:

Nodi a derbyn adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2025 ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC).

Nodi a derbyn adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2025 ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (y Cynllun Twf), gan gynnwys sefyllfa cronfeydd wrth gefn a chymeradwyo'r trosglwyddiad unwaith ac am byth yn y gyllideb sy'n ymwneud ag incwm a gwariant grant.

Nodi a derbyn yr adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2025 ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd adolygiad amcan sefyllfa refeniw y CBC gan gynnwys penawdau ar wahân ar gyfer Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Parth Buddsoddi.

Nodwyd bod proffil rhaglen gyfalaf y Cynllun Twf wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd a hynny'n dilyn yn sgil rai cynlluniau'n cael eu tynnu allan a chynlluniau newydd yn cael eu hychwanegu o'r rhestr wrth gefn. Bydd y gwaith yma yn cael ei adrodd fel rhan o'r Achos Busnes Portffolio ym mis Rhagfyr ac yna fel rhan o'r adolygiad ariannol chwarter tri.

Ymhelaethwyd bod amcan o danwariant o £411 mil ar gyfer y CBC. Nodwyd fod hyn yn bennaf oherwydd tanwariant mewn gwariant gweithwyr, yswiriant, systemau a gwasanaethau cefnogol, yn ogystal â grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac incwm llog.

Yn ogystal, nodwyd bod amcan o danwariant o £280 mil ar gyfer y Cynllun Twf. Eglurwyd fod hyn yn bennaf oherwydd tanwariant mewn gwariant gweithwyr, swyddi llywodraeth ychwanegol a gwasanaethau cefnogol y corff atebol. Cydnabuwyd llwyddiant gyda'u cais Cronfa Ffyniant Gyffredin, sydd wedi cyfrannu ymhellach at y tanwariant mewn gwariant gweithwyr.

Adroddwyd fod grant o £177 mil gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Ynni a £444 mil o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu cynnwys yn y gyllideb yng ngholofn Trosglwyddiad unwaith ac am byth.

Ychwanegwyd amcan o falensau'r cronfeydd ar 31 Mawrth 2026, gan nodi eu bod yn rhagweld y bydd angen benthyca yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn ariannu'r Cynllun Twf, ac felly bydd y costau yma yn cael eu hariannu o'r gronfa llog. Nodwyd dadansoddiad o'r gwariant ar y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol; ymhelaethwyd fod y gwariant yma yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru o £290 mil a £12 mil o'r gronfa wrth gefn.

Diolchwyd am yr adroddiad.

6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC.

PENDERFYNWYD

Derbyniwyd a chymeradwywyd y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn amlinellu fod trefniadau llywodraethu carn yn eu lle, yn gadarn, tryloyw ac wedi ei seilio ar arfer gorau. Amlygwyd fod trefniadau a phrosesau yn cael eu haddasu'n barhaus a bod lle i ddatblygu ymhellach.

Amlygwyd fod wedi ei dderbyn gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Cyllid Statudol.

Diolchwyd am yr adroddiad a thynnwyd sylw at ran 6 o'r adroddiad - Rheoli Risgiau, Perfformiad a Chyllid gan nodi fod rheoli risgiau yn holl bwysig fel corff cyhoeddus. Er hyn, mynegwyd mai'r prif risg yw bod yn rhy gadarn ac i sicrhau balans rhwng gwario arian a rheoli risg. Ymatebwyd drwy nodi fod yr adroddiad yn cydnabod ble mae'r Cydbwyllgor heddiw, ac yn nodi sut i symud yn eu blaen. Tynnwyd sylw at yr argymelliadau i lyfnhau eto er mwyn cael cydbwysedd rhwng risg a gwariant gan fod prosiectau angen symud yn gyflym. Gofynnwyd fod cynlluniau sydd ddim yn cyrraedd y gofynion yn dod yn ôl at y Bwrdd am drafodaeth yn syth.

7. LLYWODRAETHU'R CBC: IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CYLCH GORCHWYL DIWYGIEDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro (Swyddog Monitro Statudol y CBC).

PENDERFYNWYD:

Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl diwygiedig a'r dirprwyaethau ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd bod y CBC wedi datblygu trefniadau Parth Buddsoddi ac wedi adeiladu trefniadau llywodraethu dros y misoedd diwethaf. Atgoffwyd yr aelodau eu bod wedi adnabod fframwaith llywodraethu yng nghyfarfod mis Tachwedd, a olygai y byddai'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn dod yn gorff arweiniol o ran gweinyddu a chefnogi cyflawni y Parth Buddsoddi. Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn argymhell newidiadau i Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Lles Economaidd, er mwyn ymestyn hawliau dirprwyedig y Cylch, i gwmpasu gwaith cyflawni y Parth Buddsoddi. Nodwyd bod y newidiadau yn debyg iawn i'r pwerau Cylch Gorchwyl y Cynllun Twf, gyda'r un math o egwyddorion. Atgyfnerthwyd y bydd y CBC yn cadw'r pwerau sy'n gysylltiedig â materion cyllidol, polisi staffio, ac yn parhau i ymwneud ag unrhyw benderfyniadau mawr o gwmpas ymrwymïadau corfforaethol i'r Parth Buddsoddi.

Gofynnwyd am sicrwydd fod yr arian sydd wedi cael eu dyrannu i'r Parth Buddsoddi yn cael eu gwario yn Wrecsam a Fflint. Cadarnhawyd fod y Cylch Gorchwyl yn datgan fod y holl Gynllun yn gweithredu o fewn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, y Cytundebau Cyllidol, a'r Cytundeb Partneriaeth. Ymhelaethwyd bod Cytundeb y Cyd-Awdurdod yn monitro sut mae'r Parth Buddsoddi yn cael eu gweinyddu a dosbarthu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir y Fflint, a'r CBC.

8. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC ac Iain Taylor, AMION Consulting.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad diweddar a nodi'r gwaith rhwng tîm y Parth Buddsoddi, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i benderfynu ar ddyraniad derbyniol o fewn y £160m ar gyfer cost rhyddhad treth sy'n gysylltiedig â meddiannu a datblygu Safleoedd Treth Parth Buddsoddi.

Cymeradwyo'r egwyddorion allweddol a nodir yn y Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) a baratowyd gan Geldards LLP i gytundeb rhwng y CBC, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Cymeradwyo Cylch Gorchwyl Bwrdd Ymgynghorol y Parth Buddsoddi.

Cymeradwyo'r aelodau a enwebwyd i Fwrdd Ymgynghorol y Parth Buddsoddi gan enwebu Aelod o Gyngor y CBC i'w benodi i'r Bwrdd yn unol â'r Cylch Gorchwyl.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan fod yn rhoi diweddariad ar y gwaith sydd wedi ei wneud ers mis Gorffennaf. Nodwyd yr angen i gymeradwyo'r egwyddorion allweddol a oedd wedi eu nodi yn y Cytundeb Rhyng Awdurdod. Amlygwyd Cylch Gorchwyl y Bwrdd Ymgynghorol y Parth Buddsoddi a fydd yn adrodd ar y cynnydd i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.

Nodwyd yr angen i enwebu un aelod o'r Cydbwyllgor i fod yn aelod o'r Bwrdd Ymgynghorol ac awgrymwyd eu bod tu hwnt i aelodau Sir Fflint a Wrecsam gan eu bod yn rhan ganolog o'r prosiect. Bu i Cyng. Jason McLellan gael ei benodi gan y Cydbwyllgor.

9. CYTUNDEB CYFLAWNI'R CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr ac Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol.

PENDERFYNWYD

Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni Drafft yn dilyn ymgynghori a'i gymeradwyo fel y Cytundeb Cyflawni Drafft, gan gynnwys y newidiadau a ddangosir yn yr adroddiad ymgynghori, yn barod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn amodol i benderfynu ar y cyllid ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol (CDS).

Cytunwyd i addasu geiriad yr Adroddiad i amlygu cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg fel rhan o'r Cynllun Datblygu Strategol, i sicrhau fod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd bod y Cytundeb Cyflawni CDS yn cynnwys gwybodaeth ar bedwar elfen: sut fydd y CBC yn bwriadu ymgymryd â'r CDS; pwy fydd yn cael eu cynnwys; yr amserlen; a sut y bydd yn cael ei gyllido. Bydd y CBC yn adrodd ar y rhain i Lywodraeth Cymru.

Ystyriwyd y Cytundeb Cyflawni gan yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ar 27 Mehefin ac fe'i hargymhellwyd i'r CBC ar 18 Gorffennaf i'w cymeradwyo er mwyn cynnal ymgynghoriad. Nodwyd bod cyfnod ymgynghoriad chwe wythnos wedi cynnal. Eglurwyd fod adroddiad ymgynghori dilynol yn cynnwys tua 18 o ymatebion ffurfiol, a oedd o ansawdd uchel.

Mynegwyd bod yr ymatebion yn cynnig arweiniad defnyddiol, a'u bod yn dangos bwriad i fod yn rhan o'r broses wrth iddo ddatblygu.

Atgoffwyd mai dogfen gweithdrefn yw hon, nid dogfen polisi. Nodwyd roedd yr ymgynghoriad yn caniatáu i'r tair elfen gyntaf o'r pedair elfen gael eu trafod a'u cadarnhau, ond nid y bedwaredd elfen, sy'n cyfeirio at gyllido'r CDS. Byddai'r argymhelliad o ail-gymeradwyo hyn fel Cytundeb Cyflawni Drafft yn sefydlu safbwynt y Bwrdd ar ôl yr ymgynghoriad a byddai'n caniatáu, o safbwynt perfformiad, i hawliad gael ei wneud i Lywodraeth Cymru am grant potensial o £100 mil.

Mynegwyd pryder am ddiffyg cydymffurfiaeth â safonau'r iaith Gymraeg, a oedd wedi'u hamlygu gan Gyngor Gwynedd yn yr ymgynghoriad. Nodwyd bod y mater wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad ond nad oedd unrhyw addasiadau wedi'i gwneud. Gofynnwyd am sicrwydd bod y pryderon yn cael eu hystyried fel y byddai'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Ar hyn o bryd, mynegwyd fod y cytundeb cyflawni drafft yn dangos bod y Saesneg yn cael ei drin yn ffafriol, a ddangosir achosion megis gorfod gwneud cais i dderbyn dogfennau yn Gymraeg a gorfod gwneud cais am gyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd.

Mynegwyd ymddiheuriadau a phwysleisiwyd bod safonau'r iaith Gymraeg yn cael eu cymryd o ddifri. Cynigiwyd cynnwys gwelliant i ddangos cydymffurfiaeth lawn gyda safonau'r iaith Gymraeg.

10. MATERION AC OPSIYNAU SY'N YMWNEUD AG ARIANNU'R GWAITH O GYNHYRCHU'R CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr ac Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol.

PENDERFYNWYD:

Ystyried y materion cyllido a'r opsiynau a nodir yn y nodyn briffio atodol, ac ystyried yr holl opsiynau i gyllido'r CDS, fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, gan gynnwys gwneud sylwadau pellach i Lywodraeth Cymru.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad hwn yn dangos sut mae modd cyflawni'r cynllun, ei gost ac i adnabod ffyrdd i gwrdd â'r diffyg ariannol.

Amcangyfrifir dros y 5 mlynedd nesaf y bydd y gost oddeutu £3.27m. Nodwyd bod y CBC wedi mynd ati i osod cyllideb cychwyn gwaith ar y Cynllun Datblygu Strategol yn ei gyllideb, rhagdybiwyd oddeutu £431,000 yn flynyddol dros y 5 mlynedd. Nodwyd nad fyddai hyn yn bodloni'r costau yn llawn. Pwysleisiwyd nad yw'r adroddiad hwn yn gofyn am arian ychwanegol ond yn hytrach adnabod fod diffyg yn y gyllideb ac yr angen i ddod o hyd i gwrdd â'r diffyg.

Mynegwyd fod Llywodraeth Cymru wedi awgrymu bod £400k o bosib ar gael yn y flwyddyn ariannol hon i bob CBC fwrw ymlaen a'r gwaith ar y Cytundebau Cyflawni. Nodwyd y byddai hyn yn cynnig £100 os yw'n cael ei ddosbarthu yn gyfartal, ond deallir ei bod yn fwy tebygol o gael ei gynnig i'r CBCau hynny sydd eisoes wedi dechrau gweithio ar eu Cytundebau

Cyflawni. Eglurwyd y bydd £100k yn cael ei roi gan y Llywodraeth pan fydd y Cytundeb Cyflawni terfynol yn cael ei gyflwyno.

Holwyd pam fod y Llywodraeth yn gofyn am gyllideb 5 mlynedd ond ddim ariannu cynllun yn llawn. Felly holwyd beth fydd yn digwydd mis Ebrill os arian ddim ar gael, ac os oes arian arth gefn mae modd ei ddefnyddio. Nodwyd fod tan wariant dan y pennawd Cynllunio Strategol a bod £140k ynddo. Eglurwyd nad yw'n ddigon ond y gall gyfrannu ato. Amlygwyd fod llawer o'r arian TWF fod tan wariant ar gyfer y camau cyntaf ac felly fod arian wrth gefn.

Pwysleisiwyd yr angen i gadw y lefi i lawr o ran y Cynghorau a'r Parc yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Nodwyd fod yr angen i gwblhau'r gwaith yma yn statudol ac felly mae angen rhoi pwysau ar y Llywodraeth i ariannu'n deg.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 14:20.

(Cadeirydd)



CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

28 Tachwedd 2025

TEITL: Datganiad o Gyfrifon y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru am 2024/25 a'r archwiliad perthnasol.

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)
Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno datganiad o gyfrifon statudol terfynol y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, yn ogystal ag adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru, sy'n manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.
- 1.2. Trosglwyddwyd rôl a swyddogaethau y BUEGC i'r CBC ar 1 Ebrill 2025, a oedd yn cynnwys staff, adnoddau, ymrwymadau ac asedau ariannol, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r cyllid, ac felly byddant yn cael eu cynnwys yn Datganiad o Gyfrifon y CBC o 2025/26.

2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

- 2.1. Ystyried a chymeradwyo'r adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru ar gyfer y BUEGC.
- 2.2. Ystyried a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon terfynol y BUEGC (ôl archwiliad) ar gyfer 2024/25).

3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2024/25. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 o ISA260 Archwilio Cymru.
- 3.2. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod, ynghyd â'r Swyddog Cyllid Statudol, ardystio'r Llythyr Sylwadau. Gwneir hyn yn electronig (Atodiad 4 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r CBC gymeradwyo'r uchod.
- 3.3. Wedi iddo dderbyn y Llythyr Sylwadau wedi'i ardystio gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod a'r Swyddog Cyllid Statudol, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon drafft 2024/25 (amodol ar archwiliad) i'r CBC ar 18 Gorffennaf 2025, pryd bu craffu priodol.



4.2. Mae'r cyfrifon terfynol a gyflwynir yma i'r CBC ar 28 Tachwedd 2025 wedi cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru.

4.3. Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2024/25 i'r CBC ar 13 Mehefin 2025. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Nodir yn Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod yr holl gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r Incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Datganiad o Gyfrifon y BUEGC ar gyfer 2024/25

Atodiad 2 Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w ychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Datganiad o'r Cyfrifon 2024/25 –
Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd
Gogledd Cymru

CYNNWYS

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 – 5
Datganiad Cyfrifoldebau	6
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	7
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	8
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	9
Y Fantolen	10
Datganiad Llif Arian	11
Nodiadau i'r Cyfrifon	12 – 36
Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	37 – 54
Adroddiad yr Archwilydd	55 – 58
Geirfa	59 – 60

ADRODDIAD NARATIF

RHAGARWEINIAD

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) ar 1 Chwefror 2019 er mwyn datblygu ymagwedd ranbarthol i dwf economaidd ac er mwyn rhoi sylw i'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi Gogledd Cymru. Mae'n cynnwys chwe ardal weinyddol awdurdodau lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef cyngorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r Cydbwyllgor hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Cydbwyllgor gytuno ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gan sicrhau buddsoddiad o £240 miliwn i economi Gogledd Cymru fel rhan o'r cytundeb. Mae Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf a chymeradwywyd achos busnes llawn y prosiect cyntaf ym mis Rhagfyr 2021 a bellach mae yn ei bedwaredd flwyddyn o gyflawni.

Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddwyd y Cynllun Twf, ei chyllid a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i Gyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC).

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer y BUEGC ac mae hefyd yn darparu'r gwasanaethau cefnogol i'r CBC.

Mae cyfrifon y BUEGC am 2024/25 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 7 i 36. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2024/25*.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** - Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blyneddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol.
- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.
- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cydbwyllgor ar 31 Mawrth 2025.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2024/25 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiâu Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Uchelgais y BUEGC

Uchelgais y BUEGC yw adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn ar gyfer Gogledd Cymru er mwyn:

- Canolbwyntio ar wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.
- Gweld y rhanbarth yn datblygu mewn ffordd gynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol a datblygu gyrfaedd gwerth chweil, gweld busnesau'n tyfu a chymunedau'n ffynnu.
- Hyrwyddo ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth, yn unol â nodau llesiant Cymru.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

Nod y Cynllun Twf yw dod â dros £1 biliwn o fuddsoddiad i ogledd Cymru er mwyn cynhyrchu dros 4,000 o swyddi newydd a chynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros o £2.4 biliwn. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi £240 miliwn o gyfalaf ar y cyd dros gyfnod o 15 mlynedd, gyda'r gweddill wedi'i ddenu o ffynonellau preifat a chyhoeddus. Bydd y deilliannau a ddymunir o'r buddsoddiad hwn yn cael eu cyflawni drwy gyflawni portffolio o bum rhaglen ar wahân sy'n:

Tud. 15

- Adeiladu ar ein cryfderau rhanbarthol mewn gweithgynhyrchu ac ynni carbon isel
- Targedu arloesedd ac isadeiledd digidol i gysylltu'r rhanbarth yn well
- Buddsoddi mewn safleoedd ac eiddo allweddol ar gyfer y farchnad datblygu
- Galluogi arloesedd i roi hwb i gynhyrchedd
- Cefnogi ein diwydiannau allweddol o fewn twristiaeth ac amaeth i ddatblygu ar gyfer y dyfodol

Y pum rhaglen yw:-

- Ynni Carbon Isel
- Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth
- Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uchel
- Cysylltedd Digidol
- Tir ac Eiddo.

Cyllideb 2024/25

Mabwysiadodd y Cyd-Bwyllgor ei gyllideb ar gyfer 2024/25 yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2024 ac mae ar gael yn: [Rhaglen ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar Dydd Gwener, 15fed Mawrth, 2024, 9.30 y.b.](#)

Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at lithriad cyffredinol portffolio cyfalaf Cynllun Twf Gogledd Cymru ers cytundeb y Cytundeb Terfynol yn Rhagfyr 2020, gan gynnwys rhagfarn optimistiaeth mewn amcangyfrifon gwreiddiol, effaith pandemig Covid-19 a chwyddiant costau sylweddol. Mae'r llithriad yn ystod 2024/25 ar y proffil cyfalaf a gytunwyd oherwydd materion mwy penodol i'r prosiect gan gynnwys oedi cynllunio a chydysnio, ac oedi datblygu achosion busnes. Mae'r proffil cyflawni cyfalaf yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol ac yn cael ei gytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Perfformiad 2024/25

Mae'r BUEGC yn adrodd yn chwarterol ar y cynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru, ac mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn: [Is-bwyllgor Lles Economaidd CBC y Gogledd](#)

Perfformiad Ariannol 2024/25

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 8 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £13,542k yn ystod 2024/25, gyda'r sefyllfa net yn £137k.
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2024/25 i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ar 16 Mai 2025 a'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar 13 Mehefin 2025 ac mae ar gael yn: [Rhaglen ar gyfer Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar Dydd Gwener, 13eg Mehefin, 2025, 2.30 y.h.](#)
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 8 a 9 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL I - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl I yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a cheir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb £'000	Gwir £'000	Gwahaniaeth £'000
Gwariant ar Weithrediadau	2,963	5,629	2,666
Ariannwyd gan-			
Cyfraniadau'r Partneriaid	(703)	(703)	0
Grantiau, chyfraniadau ac incwm eraill	(2,193)	(5,245)	(3,052)
Cyfraniad o Falans y Gronfa Gyffredinol	(67)	(67)	0
(Tanwariant)/Gorwariant Net	0	(386)	(386)

Tud. 16

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng ‘Crynodeb o’r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a’r Gwir Sefyllfa (Net)’ (Tabl 1) i’r fformat Incwm a Gwariant

	Adroddiad Perfformiad (Alldro) £'000	Addasiad Trawsddodiad £'000	Sefyllfa Net i'w Ariannu gan / (drosgrwyddo i) falansau'r Gronfa Cyffredinol £'000	Addasiadau rhwyng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo £'000	Datganiad Incwm a Gwariant £'000
Gwariant	5,629	(2,800)	2,829	10,713	13,542
Incwm	(6,015)	3,253	(2,762)	(10,643)	(13,405)
Cost Gwasanaethau Net	(386)	453	67	70	137

Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau, y llog ar falansau a dderbyniwyd yn y flwyddyn ariannol a'r gostyngiad i'r Grant Bergen Twf a oedd ei angen yn ystod y flwyddyn.

Eitemau Materol o Incwm a Gwariant

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- £2,800k mewn llog derbyniadwy ac incwm tebyg (Nodyn 11).
- £13,405k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 20).

Materion Eraill

- Mae ansefydlogrwydd economaidd a risgiau ariannol yn parhau yn y DU ac yn fyd-eang, yn arbennig o ystyried y tollau newydd rhwng yr UDA a gweddill y byd. Gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol (OBR) yn eu hadroddiad 'Economic and Fiscal Outlook' dyddiedig Mawrth 2025 yn darogan cynnydd mewn cyfraddau chwyddiant ac ynni a lleihad mewn cyfraddau llog. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi cymryd yr amgylchiadau hyn i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.
- Mae chwyddiant mewn costau yn risg ar gyfer prosiectau cyfalaf y Cynllun Twf Gogledd Cymru a mae'r Cyd-Bwyllgor wedi clustnodi arian ychwanegol i'r prosiectau mwyaf aeddfed er mwyn lleihau y risg yma.

Gwariant Cyfalaf yn 2024/25

Yn 2024/25 gwariodd y Cyd-Bwyllgor £10.8m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â'r modd y cafodd ei ariannu.

TABL 3 - CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU

2023/24 £'000	2024/25 £'000
1,547 Prosiectau	10,766
1,547	10,766
ARIANNWYD GAN -	
1,547 Grantiau a Chyfraniadau	10,643
0 Reserf	123
1,547	10,766

Mae'r £10,766k yn y tabl uchod yn Wariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud ac fe ad-dalwyd y gwariant

yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Mae'r £10,643k a ariennir gan y Grant Bargen Twf wedi'i wario ar prosiect Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter gan Brifysgol Wrecsam, prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol gan Brifysgol Bangor a phrosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth gan Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r gwariant o £123k yn ymwneud â'r prosiect Ynni Lleol Blaengar a ariannwyd gan y Gronfa Prosiectau.

Arian wrth Gefn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor reserfau defnyddiadwy o £7,774k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10.

Cronfa Bensiwn

Mae asesiad wedi cael ei wneud gan Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd, Hymans Robertson, o sefyllfa actiwaraidd y Cyd-Bwyllgor. Er mwyn cydymffurfio â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi dangos ymrwymiad net o ddim ar 31 Mawrth 2025 ar y Fantolen. Gweler Nodyn 24 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Mae'r cyfrifon yn seiliedig ar y prisiad a gafodd ei gynnal 31 Mawrth 2022, bydd cyfrifon blwyddyn ariannol 2026/27 ymlaen yn seiliedig ar brisiad 31 Mawrth 2025.

Llywodraethu

Mae BUEGC yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol.

Polisiâu Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisiâu Cyfrifo yn Nodyn 1 i'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 12.

Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Mae polisiâu cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu y newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth Bellach

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru) ac ar wefan y CBC (uchelgaigogledd.cymru).

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Sian Pugh
Pennaeth Cyllid Cynorthwyol -
Cynaliadwyedd a Datblygiadau
01286 679134

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

Tud. 18

BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR

Mae'n ofynnol ar Gyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Swyddog Cyllid Statudol Cyngor Gwynedd yw swyddog ariannol cyfrifol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

Y Cyngorydd Mark Pritchard
Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

28 Tachwedd 2025

CYFRIFOLDEB Y SWYDDOG CYLLID STATUDOL

Swyddog Cyllid Statudol y Cyd-Bwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Swyddog Cyllid Statudol wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Swyddog Cyllid Statudol wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2025 ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dewi Aeron Morgan CPFA
Swyddog Cyllid Statudol, Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

18 Tachwedd 2025

Tud. 19

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2023/24				2024/25			
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler Nodyn 8)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler Nodyn 8)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr	
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000	
1,380	(39)	1,341	Swyddfa Rheoli Portffolio	1,458	(53)	1,405	
162	0	162	Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol	171	0	171	
45	0	45	Cyd-bwyllgor	22	0	22	
456	1,547	2,003	Prosiectau	310	10,766	11,076	
608	0	608	Cynlluniau Grant	868	0	868	
(2,617)	(1,547)	(4,164)	Incwm	(2,762)	(10,643)	(13,405)	
34	(39)	(5)	Cost Gwasanaethau	67	70	137	
(2,826)	(1)	(2,827)	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi (Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(2,677)	(124)	(2,801)	
(2,792)	(40)	(2,832)		(2,610)	(54)	(2,664)	
(2,372)			Balans Agoriadol	(5,164)			
(2,792)			(Gweddill)/Diffyg yn y Flwyddyn	(2,610)			
(5,164)			Balans Cau	(7,774)			

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

2023/24				2024/25			Nodyn
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000	
1,341	0	1,341	Swyddfa Rheoli Portffolio Gwasanaethau Cefnogol y Corff	1,405	0	1,405	
162	0	162	Atebol	171	0	171	
45	0	45	Cyd-bwyllgor	22	0	22	
2,003	0	2,003	Prosiectau	11,076	0	11,076	
608	0	608	Cynlluniau Grant	868	0	868	
0	(4,164)	(4,164)	Incwm	0	(13,405)	(13,405)	
4,159	(4,164)	(5)	Cost Gwasanaethau	13,542	(13,405)	137	
0	(2,827)	(2,827)	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	(2,801)	(2,801)	11
4,159	(6,991)	(2,832)	(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	13,542	(16,206)	(2,664)	
		36	Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymadau/(asedau)	15.2		66	
		36	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			66	
		(2,796)	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			(2,598)	

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r Cynghorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

		Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau		
	Nodyn	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy	Reserfau na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor
		£'000	£'000	£'000
Balans 31 Mawrth 2023 a ddygwyd ymlaen		(2,372)	34	(2,338)
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2023/24</u>				
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau		(2,832)	0	(2,832)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	36	36
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(2,832)	36	(2,796)
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	9	40	(40)	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd		(2,792)	(4)	(2,796)
(Cynnydd)/ Gostyngiad yn 2023/24		(2,792)	(4)	(2,796)
Balans 31 Mawrth 2024 a ddygwyd ymlaen	10 & 15	(5,164)	30	(5,134)
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2024/25</u>				
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau		(2,664)	0	(2,664)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	66	66
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(2,664)	66	(2,598)
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	9	54	(54)	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	10 & 15	(2,610)	12	(2,598)
(Cynnydd)/ Gostyngiad yn 2024/25		(2,610)	12	(2,598)
Balans 31 Mawrth 2025 a ddygwyd ymlaen		(7,774)	42	(7,732)

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymïadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymïadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrïso), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

31 Mawrth 2024 £'000		<i>Nodyn</i>	31 Mawrth 2025 £'000
0	Dyledwyr Tymor Hir		3
0	Asedau Tymor Hir		3
325	Dyledwyr Tymor Byr	12	133
58,916	Arian a Chywerthoedd Arian	13	53,716
59,241	Asedau Cyfredol		53,849
(1,157)	Credydwyr Tymor Byr	14	(4,540)
(23,949)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw	20b	(30,787)
(25,106)	Ymrwymïadau Cyfredol		(35,327)
0	Ymrwymïad Pensiwn	24	0
(29,001)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw	20b	(10,793)
(29,001)	Ymrwymïadau Tymor Hir		(10,793)
5,134	Asedau Net		7,732
(5,164)	Reserfau Defnyddiadwy	10	(7,774)
30	Reserfau na ellir eu defnyddio	15	42
(5,134)	Cyfanswm Reserfau		(7,732)

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor a ariennir trwy incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.

2023/24 £'000		Nodyn	2024/25 £'000
(2,832)	(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		(2,664)
896	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	16a	7,864
(1,936)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		5,200
0	Gweithgareddau Buddsoddi		0
0	Gweithgareddau Ariannu		0
(1,936)	(Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian		5,200
(56,980)	Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd	13	(58,916)
(58,916)	Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd	13	(53,716)

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2024/25 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2025. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu yn y Datganiad o'r Cyfrifon. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisiau perthnasol yn unig.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnwyd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar y cyfrif refeniw am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

I.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

I.4 Buddiannau Gweithwyr

I.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir cronïad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y cronïad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

I.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronïad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn yn hytrach na'r swm, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Reserf Pensiynau er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

I.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o un cynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

I.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 5.85% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiari'r Gronfa.

Pan fydd y cyfrifiad yn arwain at ased net ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, rhaid cydnabod yr ased net ar isaf yr ased net hwnnw a'r nedfwd asedau, sy'n cael ei gyfrifo fel gwerth net presennol o gostau gwasanaeth yn y dyfodol llai gwerth net presennol cyfraniadau yn y dyfodol dros yr oed waith yn y dyfodol. Lle mae'r nenfwd yw'r isaf, bydd angen addasiad sy'n cael ei gynnwys fel ailfesuriad.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaeth.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Cyd-Bwyllgor - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynnwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

Tud. 26

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

- Enillion a cholledion actiwaraid - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu am nad yw'r Actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Addasiad nenfwd asedau - yn lleihau i'r nenfwd asedau wedi'i gyfrifo os yw hyn yn is na'r sefyllfa ased.
- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwmiadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwmiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh 19.

1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwmiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiâu â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodi cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiâu Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynnyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiâu cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai nad yw'n faterol neu y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail gronïadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

Oherwydd gofynion y gyfundrefn rheoli cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r Cyd-bwyllgor yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o flaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

1.9 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

1.10 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae deddfwriaeth yn caniatáu categoreiddio peth gwariant fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw'n creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y math yma o wariant ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

1.11 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant refeniw. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestrriad TAW Cyngor Gwynedd.

1.12 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côt Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

1.13 Contractau Tymor Hir

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei dyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynnwyd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

NODYN 1 – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.14 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymïadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymïadau, refeniw a gwariant.

Mae'r Cyd-Bwyllgor BUEGC wedi ei gategoreiddio fel Gweithrediad ar y Cyd gan wneud defnydd o asedau ac adnoddau'r gweithredwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisiâu cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25.

NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol yn ystod 2024/25.

NODYN 4 – SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyledig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Cod 2025/26:

- SCRh 21 Effeithiau Newidiadau Mewn Cyfraddau Cyfnewid Tramor (Diffyg Cyfnewidiadwyedd) a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023. Mae'r diwygiadau i SCRh 21 yn esbonio sut y dylai endid asesu a yw arian cyfredol yn gyfnewidiol a sut y dylai benodi cyfradd cyfnewid ar y pryd pan y gwelir diffyg cyfnewidiadwyedd, yn ogystal â gofyn am ddatgelu gwybodaeth sy'n galluogi defnyddwyr datganiadau ariannol i ddeall yr effaith pan nad yw arian cyfredol yn gyfnewidiadwy.
- SAARh 17 Cytundebau Yswiriant a gyhoeddwyd ym Mai 2017. Mae SAARh 17 yn disodli SAARh 4 ac mae'n cyflwyno egwyddorion ar gyfer adnabod, mesur, cyflwyno a datgan cytundebau yswiriant.
- Mae'r newidiadau i fesur asedau na fuddsoddir o fewn Cod 2025/26 yn cynnwys addasiadau a dehongliadau o SCRh 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar a SCRh 38 Asedau Anniriaethol. Mae rhain yn cynnwys sefydlu tair proses ailbrisio ar gyfer eiddo gweithredol, offer a chyfarpar, gan ofyn am ddefnyddio ffactorau mynegrifo ar gyfer asedau diriaethol na fuddsoddir a gofyniad i werthuso asedau anniriaethol gan ddefnyddio'r dull cost hanesyddol. Mae gan y rhain yr un effaith a gofyn am newid i bolisi cyfrifeg oherwydd diwygiad i'r safonau, a fyddai fel arfer yn cael ei ddatgelu o dan SCRh 8. Fodd bynnag, mae'r addasiadau hefyd yn cynnwys rhyddhad rhag gofynion SCRh 8 ar ôl newid yn y polisi cyfrifo.

Mae'n ofynnol fod y Cod yn weithredol o 1 Ebrill 2025 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2024/25. Ni ddigwyllir y bydd yr eitemau eraill uchod yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol 2025/26.

NODYN 5 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÂU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymïadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys thybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

NODYN 5 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISI'AU CYFRIFO (parhad)

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr Actiwari o asedau ac ymrwymadau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd a gwariant refeniw wedi ei ariannu drwy statud. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 6 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2025 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw canlyniadau gwir yn wahanol i dybiaethau
Ymrwymiad Pensiwn	Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghori yn ymwneud â rhoi cyngor arbenigol i'r Cyd-bwyllgor am y rhagdybiaethau i'w defnyddio.	Mae effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar ymrwymiad pensiwn net wedi'u nodi yn Nodyn 24.

NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o incwm a gwariant yn cynnwys y canlynol:-

- £2,800k mewn llog derbyniadwy ac incwm tebyg (Nodyn 11).
- £13,405k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 20).

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2024/25	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i) £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii) £'000	Gwahaniaethau Eraill (iii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Swyddfa Rheoli Portffolio	0	(65)	12	(53)
Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol	0	0	0	0
Cyd-bwyllgor	0	0	0	0
Prosiectau	10,766	0	0	10,766
Cynlluniau Grantiau	0	0	0	0
Incwm	(10,643)	0	0	(10,643)
Cost Gwasanaethau	123	(65)	12	70
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	(123)	(1)	0	(124)
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	(66)	12	(54)

2023/24	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i) £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii) £'000	Gwahaniaethau Eraill (iii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Swyddfa Rheoli Portffolio	0	(35)	(4)	(39)
Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol	0	0	0	0
Cyd-bwyllgor	0	0	0	0
Prosiectau	1,547	0	0	1,547
Cynlluniau Grantiau	0	0	0	0
Incwm	(1,547)	0	0	(1,547)
Cost Gwasanaethau	0	(35)	(4)	(39)
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	(1)	0	(1)
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	(36)	(4)	(40)

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

(i) Addasiadau i Bwrpas Cyfalaf

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r golofn yma yn ychwanegu gwariant refeniw wedi ei ariannu o gyfalaf drwy statud.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi**, y costau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf a chyfraniadau refeniw arall yn cael eu tynnu allan o incwm a gwariant arall gan na ellir codi amdanynt o dan ymargherod cyfrifo su'n gyffredinol gydnabyddedig.

(ii) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor fel y caniateir trwy statud a'u hamnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi**, y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

(iii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am Groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi**, mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

NODYN 9 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

2024/25		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf		
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a ddefnyddiwyd	10,643	(10,643)
Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud	(10,766)	10,766
Gwariant cyfalaf a ariennir o falansau refeniw	123	(123)
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 24)	(157)	157
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	223	(223)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(12)	12
Cyfanswm Addasiadau	54	(54)

2023/24		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf		
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a ddefnyddiwyd	1,547	(1,547)
Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud	(1,547)	1,547
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 24)	(142)	142
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	178	(178)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	4	(4)
Cyfanswm Addasiadau	40	(40)

Tud. 33

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau defnyddiadwy er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, gyda chynnydd net o £2,610k.

Reserfau Defnyddiadwy

2024/25		Balans 31 Mawrth 2024	Trosglwyddiadau mewn allan		Balans 31 Mawrth 2025
Nodyn		£'000	£'000	£'000	£'000
10.1	Cronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd	278	0	(67)	211
10.2	Cronfa Prosiectiau	152	0	(123)	29
10.3	Cronfa Llog	4,734	0	0	4,734
10.4	Cronfa Adnoddau	0	2,800	0	2,800
Cyfanswm		5,164	2,800	(190)	7,774

- 10.1 Cronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd - i gefnogi cyllidebau'r blynyddoedd i ddod a'r strwythur staffio.
 10.2 Cronfa Prosiectiau - i ariannu gwariant sydd yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.
 10.3 Cronfa Llog - i ariannu cost benthyca yn y dyfodol.
 10.4 Cronfa Anoddau- i ariannu gofynion y llywodraeth a chostau datblygu prosiectau, a chadw capasiti'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

NODYN 11 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2023/24	2024/25
£'000	£'000
(1) Llog net yr ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net	(1)
(2,826) Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	(2,800)
(2,827) Cyfanswm	(2,801)

NODYN 12 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
	£'000	£'000
Symiau Derbyniadwy Masnach	75	89
Blaendaliadau	1	7
Symiau Derbyniadwy Eraill	249	37
Cyfanswm	325	133

NODYN 13 – ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Arian mewn Banc a ddelir gan yr Awdurdod Lletya	58,916	53,716
Arian a Chywertthoedd Arian	58,916	53,716

NODYN 14 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Symiau Taladwy Masnach	222	137
Symiau Taladwy Eraill	935	4,403
Cyfanswm	1,157	4,540

NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
0 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	0
0 Reserf Pensiynau	0
(30) Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(42)
(30) Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	(42)

NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

15.1 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella'r asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan y Cyd-Bwyllgor fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif.

2023/24	2024/25
£'000	£'000
0 Balans 1 Ebrill	0
<u>Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>	
(1,547) Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud	(10,766)
<u>Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn:</u>	
1,547 Grantiau a Chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf	10,643
0 Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	123
0 Balans 31 Mawrth	0

15.2 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blyneddau o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw Adnoddau sydd wedi eu neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd gael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa pensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt, gydag anghenion ariannu wedi eu neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2023/24	2024/25
£000	£000
0 Balans 1 Ebrill	0
(36) Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net (ymrwymadau) / asedau	(66)
(142) Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(157)
178 Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	223
0 Balans 31 Mawrth	0

NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

15.3 Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2023/24	2024/25
£000	£000
(34) Balans 1 Ebrill	(30)
4 Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(12)
(30) Balance 31 Mawrth	(42)

NODYN 16a – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2023/24	2024/25
£'000	£'000
1,012 (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyd	8,000
(156) Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyd	(190)
36 Ymrwymiad Pensiwn	66
4 Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	(12)
896	7,864

NODYN 16b – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

2023/24	2024/25
£'000	£'000
(2,826) Llog derbyniwyd	(2,800)

NODYN 17 – DADANSODDIAD NATUR GWARIANT AC INCWM

Mae gwariant ac incwm y Cyd-Bwyllgor wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:

2023/24		2024/25
£'000	<u>Gwariant / Incwm</u>	£'000
Gwariant		
1,292	Gwariant buddion gweithwyr	1,566
37	Eiddo	36
2	Cludiant	2
1,059	Gwasanaeth a Chyflenwadau	955
222	Trydydd Parti	217
0	Taliadau llog	0
1,547	Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu drwy Statud	10,766
4,159	Cyfanswm Gwariant	13,542
Incwm		
(934)	Cyfraniadau Partneriaid	(704)
(2,827)	Incwm llog a buddsoddi	(2,801)
(3,230)	Grantiau a chyfraniadau eraill	(12,701)
(6,991)	Cyfanswm Incwm	(16,206)
(2,832)	(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(2,664)

NODYN 18 – TALIADAU I SWYDDOGION

18a. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor:

2023/24			Uwch Swyddogion	2024/25		
Cyfraniadau Pensiwn				Cyfraniadau Pensiwn		
Cyflog	Cyflogwr	Cyfanswm		Cyflog	Cyflogwr	Cyfanswm
£	£	£		£	£	£
118,095	21,764	139,859	Cyfarwyddwr Portffolio*	119,510	20,762	140,272
83,076	15,951	99,027	Pennaeth Gweithrediadau**	86,343	16,578	102,921

* Ers 10 Hydref 2022, mae'r Cyfarwyddwr Portffolio wedi'i secondio i'r CBC am ddau ddiwrnod yr wythnos i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC ac yn derbyn honorariwm mewn perthynas â'r rol hon. Mae'r CBC yn ad-dalu'r BUEGC am holl gostau cyflogaeth a chostau cysylltiedig y secondiad. Mae'r costau tâl a ddatgelir yn gros o'r ad-daliad.

** Mae'r Pennaeth Gweithrediadau yn ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Portffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos ac felly yn derbyn tâl yn seiliedig ar ddwy raddfa gyflog.

NODYN 18 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

18b. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr). Mae costau ddiswyddo i'w cynnwys yn y ffigurau; fodd bynnag, nod oedd unrhyw achosion yn 2024/25 a 2023/24.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:		
Nifer yn 2023/24		Nifer yn 2024/25
Cyfanswm		Cyfanswm
0	£60,000 - £64,999	2

NODYN 19 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2023/24		2024/25
£'000		£'000
25	Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	13
25	Ffioedd Net	13

NODYN 20 – INCWM GRANT

20a. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2023/24		2024/25	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
Llywodraeth Cymru				
Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd	233		0	
Grant Bargen Twf Gogledd Cymru*	1,124		10,643	
Grant Ynni Lleol	600		186	
Grant Uwchraddio Ffeibr Llawn Lleol	423		0	
Grant Ymchwil Statws Bwyd Amaeth	19		2	
Grant Lleoliad Myfyrwyr	15		9	
	2,414		10,840	
Grantiau a Chyfraniadau eraill				
Cyfraniadau'r Partneriaid				
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	127		98	
Cyngor Sir Ddinbych	121		98	
Cyngor Sir y Fflint	138		98	
Cyngor Gwynedd	129		98	
Cyngor Sir Ynys Môn	114		98	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	132		98	
Prifysgol Bangor	64		29	
Prifysgol Wrecsam	41		29	
Coleg Cambria	28		29	
Grŵp Llandrillo Menai	40		29	
	934		704	
Cyngor Gwynedd				
Grant Bargen Twf Gogledd Cymru	561		714	
Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU	174		885	
	735		1,599	
Eraill				
Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru	70		84	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU	8		174	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Glofal Cymdeithasol Cymru	3		1	
Cyfraniadau Ymchwil Statws Bwyd Amaeth	0		3	
	81		262	
Cyfanswm	4,164		13,405	

* Mae'r Grant Bargen Twf Gogledd Cymru yn cael ei ariannu 50% gan Llywodraeth Cymru a 50% gan Lywodraeth y DU.

20 – INCWM GRANT (parhad)

20b. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grantiau, cyfraniadau neu roddion sydd eto i'w hadnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Hir</u>		
Grantiau Cyfalaf		
Grant Bargen Twf Gogledd Cymru	29,001	10,793
Cyfanswm Tymor Hir	29,001	10,793
<u>Tymor Byr</u>		
Grantiau Cyfalaf		
Grant Bargen Twf Gogledd Cymru	23,920	30,770
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw		
Grant Lleoliad Myfyrwyr	8	0
Cyfraniadau Ymchwil Statws Bwyd Amaeth	21	17
	<u>29</u>	<u>17</u>
Cyfanswm Tymor Byr	23,949	30,787
Cyfanswm	<u>52,950</u>	<u>41,580</u>

NODYN 21 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel y ddiffinnir yng Nghôd Ymarfer CIPFA.

Gweithrediad y Cyd-Bwyllgor

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ar 1 Chwefror 2019 er mwyn datblygu ymagwedd ranbarthol i dwf economaidd ac er mwyn rhoi sylw i'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi Gogledd Cymru. Mae'n cynnwys chwe ardal weinyddol awdurdodau lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef cyngorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r Cyd-Bwyllgor hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Cyd-Bwyllgor gytuno ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gan sicrhau buddsoddiad o £240 miliwn i economi Gogledd Cymru fel rhan o'r cytundeb. Mae Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf a chymeradwywyd achos busnes llawn y prosiect cyntaf ym mis Rhagfyr 2021 a bellach mae yn ei bedwaredd flwyddyn o gyflawni.

Fe grynhoir isod daliadau ac incwm rhwng y Cyd-Bwyllgor, yr Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch a'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer y BUEGC.

	Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan BUEGC	Incwm a dderbyniwyd	Symiau sy'n ddyledus i'r BUEGC
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	3	0	(98)	0
Cyngor Sir Ddinbych	12	0	(98)	0
Cyngor Sir y Fflint	5	0	(98)	0
Cyngor Gwynedd	261	0	(1,697)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	2	0	(98)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	0	0	(272)	0
Prifysgol Bangor	0	582	(29)	0
Prifysgol Wrecsam	6,210	2,850	(29)	0
Coleg Cambria	4	0	(29)	0
Grŵp Llandrillo Menai	0	1,002	(29)	0
Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd	0	4	(1)	(83)

Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyd-Bwyllgor, ac mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol ynghyd â darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau. Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn Nodyn 17 sy'n dadansoddi natur gwariant ac incwm. Manylir y sefyllfa ar 31 Mawrth yn Nodyn 20.

Aelodau Bwrdd, Ymgynghorwyr a Swyddogion

Mae gan aelodau ac ymgynghorwyr y Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae holl Aelodau'r Bwrdd, Ymgynghorwyr ac Uwch Swyddogion y Cyd-Bwyllgor wedi cwblhau ffurflenni datganiad i ddatgan eu diddordeb neu eu perthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sy'n ymwneud â'r Cyd-Bwyllgor.

NODYN 21 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)

Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2024/25 a'r balansau ar 31 Mawrth 2025 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan BUEGC	Incwm a dderbyniwyd	Symiau sy'n ddyledus i'r BUEGC
£'000	£'000	£'000	£'000
38	19	0	0

Mae un o aelodau pleidleisio'r BUEGC hefyd yn aelod o Bwyllgor Pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd. Dangosir manylion trafodion gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 24.

NODYN 22 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gaffaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy godi tâl yn refeniw fel defnyddir asedau gan y Cyd-Bwyllgor, yna byddai hyn yn arwain at gynydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol y Cyd-Bwyllgor sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

31 Mawrth 2024 £'000		31 Mawrth 2025 £'000
0	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf (Nodyn 15.1)	0
0	Gofyn Cyllido Cyfalaf	0

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu hegluro fel a ganlyn:

2023/24 £'000		2024/25 £'000
0	Gofyn Cyllido Cyfalaf 1 Ebrill	0
1,547	Wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud	10,766
(1,547)	Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill	(10,643)
0	Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	(123)
0	Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth	0

NODYN 23 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Nid oedd yna unrhyw becyn terfynu gwaith yn ystod 2024/25 na 2023/24.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae BUEGC yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Awdurdod a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i gydbwysu'r ymrwymadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiwn wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisiau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net	(Ymrwymladau) /asedau net	
	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
	£'000	£'000
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	1,540	1,955
Gwerth Presennol Ymrwymladau wedi eu hariannu	(1,397)	(1,551)
Effaith y nenfwd asedau	(143)	(404)
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	0	0
Cost Gwasanaeth		
- Cost Gwasanaeth Cyfredol*	(143)	(158)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	(143)	(158)
Llog Net		
- Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	79	102
- Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad	(71)	(81)
- Llog ar effaith y nenfwd asedau	(7)	(20)
Cyfanswm Llog Net	1	1
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	(142)	(157)
Llif Arian		
- Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	0	0
- Cyfraniadau y Cyflogwr	171	225
- Buddion a Dalwyd	0	0
Sefyllfa Cau y Disgwyllir	29	68
Ail Fesuriadau		
- Newid mewn Tybiaethau Demograffig	9	3
- Newid mewn Tybiaethau Ariannol	158	503
- Profiadau Eraill**	(42)	14
- Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	100	(11)
- Newidiadau mewn effaith y nenfwd ased	150	424
Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	375	933
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	1,955	2,354
Gwerth Presennol Ymrwymladau wedi eu hariannu	(1,551)	(1,353)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	404	1,001

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.6% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

** O fewn profiadau eraill, mae'r ymrwymladau a ariennir wedi gostwng £14,000 ar 31 Mawrth 2025 o ganlyniad i'r gorchymyn cynydd pensiwn yn wahanol i'r rhagdybiaeth flaenorol. Mae'r profiadau eraill ar ymrwymladau ar 31 Mawrth 2024 yn cynnwys lwfans o £42,000 ar gyfer effaith gorchymyn cynnydd pensiwn Ebrill 2024.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Asedau ac ymrwymïadau pensiwn a gydnabyddir yn y Fanolen

Mae'r swm a gynhwysir yn y Fantolen sy'n codi o ymrwymïad y Cyd-Bwyllgor mewn perthynas â'i gynllun buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	1,955	2,354
Gwerth Presennol Ymrwymïadau wedi eu hariannu	(1,551)	(1,353)
Is-gyfanswm	404	1,001
Effaith SCRh 19/ PDAARh 14	(404)	(1,001)
Ased/ (Ymrwymïad) Net Yn Deillio o Ymrwymïad Buddion a Ddiffinnir	0	0

Mae prisiad actiwaraidd ymrwymïadau cynllun pensiwn a resef pensiynau y Cyd-Bwyllgor a ddangosir ar y Fantolen yn adrodd am ased neu ymrwymïad net o ddim. Penderfynodd Actiwari'r Cyd-Bwyllgor, Hymans Robertson LLP, fod gwerth teg asedau cynllun pensiwn y Cyd-Bwyllgor yn fwy na gwerth presennol ymrwymïadau'r cynllun ar 31 Mawrth 2025 gan arwain at ased cynllun pensiwn. Mae PDAARh 14 a buddion gweithwyr SCRh 19 yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae ased cynllun pensiwn yn bodoli, ei fod yn cael ei fesur fel yr isaf o'r:

- Gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig; a'r
- Nenfwd asedau, sydd wedi'i gyfyngu i £0

Y nenfwd asedau yw gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau yng nghyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Cyfrifodd Actiwari'r Cyd-Bwyllgor y nenfwd asedau fel y gwerth net presennol o gostau gwasanaeth yn y dyfodol llai gwerth net presennol cyfraniadau yn y dyfodol. Mae'r nenfwd asedau a gyfrifwyd ar gyfer 2024/25 yn arwain at fwy o gyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol na chostau gwasanaeth yn y dyfodol, felly mae'r budd economaidd wedi'i gyfyngu i ddim. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn dibynnu ac yn rhoi sicrwydd ar farn broffesiynol yr Actiwari a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r prisiad actiwaraidd hwn.

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r Actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh 19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau BUEGC ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2024. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £3.18bn ar 31 Mawrth 2025, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond rhan o'r Gronfa sy'n berthnasol i'r BUEGC.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2024				Ar 31 Mawrth 2025			
	Prisiau a ddyfynnwyd mewn	Prisiau na ddyfynnir mewn	Cyfanswm		Prisiau a ddyfynnwyd mewn	Prisiau na ddyfynnir mewn	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000	%
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	102	102	5	0	127	127	5
Eiddo Diriaethol								
Eiddo y DU	0	136	136	7	0	150	150	6
Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol								
Ecwiti	0	1,088	1,088	56	0	1,300	1,300	55
Bondiau	0	0	0	0	0	692	692	29
Is-adeiladwaith	0	0	0	0	0	69	69	3
Eraill	0	556	556	28	0	0	0	0
Deilliadau								
Chwyddiant	0	48	48	3	0	0	0	0
Arian a Chywerthoedd Arian								
Y cyfan	0	25	25	1	0	16	16	1
Cyfanswm	0	1,955	1,955	100	0	2,354	2,354	100

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymadau

Mae'r ymrwymadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2023, gyda phwysiad o 15% o ddata 2023 (a 2022), pwysiad o 0% o ddata 2021 (a 2020), llyfnu safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn ar gyfer gwrywod a benywod.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr Actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymadau fel a ganlyn:

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
Tybiaethau Ariannol	% y.f.	% y.f.
Cyfradd Codiad Pensiynau	2.75	2.70
Cyfradd Codiad Cyflogau	3.25	3.20
Cyfradd Chwyddiant	2.75	2.70
Cyfradd Ddisgownt	4.85	5.85
Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau	4.85	5.85
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynnyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	65	65
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	65	65
Tybiaethau Marwolaeth	Blynnyddoedd	Blynnyddoedd
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr cyfredol		
Dynion	20.8	20.7
Merched	23.7	23.7
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol		
Dynion	22.5	22.4
Merched	25.5	25.4

Mae'r amcangyfrifiad o'r ymrwymïadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraid sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintoli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r Actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymïadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2025 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh 19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintoli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r Actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedranau iau neu hŷn).

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, sef dyddiad y prisiad actiwaraid diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun	Brasamcan cynnydd i'r Ymrwymiad Buddion Diffiniedig	Brasamcan swm ariannol
Newid tybiaeth	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2025
	%	£'000
0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt	3	42
Cynnydd o 1 blwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau	4	54
0.1% o gynnydd i'r cyfradd codiad cyflog	0	2
0.1% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn	3	41

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi cytuno ar strategaeth gydag Actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd, neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2024 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraid 2022, dyddiedig 28 Mawrth 2023.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2025	
	£'000	%
Aelodau Gweithredol	1,348	99.6
Aelodau Gohiriedig	5	0.4
Aelodau Pensiynwyr	0	0.0
Cyfanswm	1,353	100.0

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymadau wedi eu hariannu yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys ymrwymadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2022. Yn unol â'r sefyllfa ar ddyddiad y prisiad yma, cyfnod cyfartaledd cymhwysol o'r ymrwymadau buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 31 mlynedd.

Effaith ar y Blynnyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £225k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2026.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amser, gwnaed addasiad o -£1,518 yn 2024/25 (£7,328 yn 2023/24), i ddod â'r sefyllfa yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraid yn unol â'r sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2025 (cyn unrhyw addasiad nenfwd ased). Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Chollodion Actiwaraid ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn.

NODYN 25 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y swyddog ariannol cyfrifol ar 18 Tachwedd 2025. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle roedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd materol i ddangos yr effaith. Mae'r cyfrifon wedi eu diweddarau ers eu cyhoeddi yn amodol ar archwiliad, i ymgorffori argymhellion yr archwiliwr.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-2025

Cyflwyniad

Uchelgais Gogledd Cymru

Sefydlwyd partneriaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn 2012 er mwyn datblygu ymagwedd ranbarthol i dwf economaidd ac er mwyn rhoi sylw i'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi'r Gogledd. Roedd y bartneriaeth yn cynnwys chwe ardal weinyddol Awdurdodau Lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef Cynghorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai.

Penodwyd Swyddfa Rheoli Portffolio yn 2019 i arwain ar gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y bartneriaeth gytuno ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gan sicrhau buddsoddiad o £240miliwn i economi'r Gogledd fel rhan o'r cytundeb.

Yn 2021 cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais y brand Uchelgais Gogledd Cymru fel y brand newydd ar gyfer y Bwrdd Uchelgais a Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Ar y 1af o Ebrill 2025, trosglwyddodd y cyfrifoldeb o gyflawni'r Cynllun Twf o'r Bwrdd Uchelgais i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynnwys y chwe Awdurdod Lleol ynghyd a Pharc Cenedlaethol Eryri, ac efo cyfrifoldebau newydd dros drafnidiaeth ranbarthol a chynllunio strategol ynghyd a chyfrifoldeb dros wella a hyrwyddo lles economaidd Gogledd Cymru. Cytunodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig i fabwysiadu'r brand Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae llywodraethiant y Cynllun Twf bellach yn cael ei oruchwylio gan Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Yn y ddogfen ble cyfeirir at y Bwrdd Uchelgais mae hyn ar gyfer penderfyniadau cyn y 1af o Ebrill 2025.

Pwrrpas

Sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais gan bartneriaid awdurdodau lleol fel cyd-bwyllgor yn 2019 a hwn yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, ynghyd ag arwain ar gydweithio economaidd rhanbarthol.

Wedi sicrhau'r Cynllun Twf ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y partneriaid gytuno i 'Gytundeb Llywodraethu 2'. Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, yn diffinio rôl a swyddogaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i ddefnydd o bwerau dirprwyedig. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r strwythurau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gorff corfforaethol a sefydlwyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021, y "Rheoliadau Sefydlu". Mae dyletswydd ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig i baratoi a chyhoeddi Cyfansoddiad, cyhoeddwyd y Cyfansoddiad cyntaf ar 1 Ebrill 2025 a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Mae'r Cyfansoddiad yn disgrifio sut mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei gyfansoddi, a'i rôl, ei swyddogaethau, ei aelodaeth a'i reolau gweithdrefnol.

Fel rhan o'r trosglwyddiad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, ymrwymodd y partneriaid i "Gytundeb mewn perthynas â chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd". Mae'r cytundeb hwn yn dod â 'Cytundeb Llywodraethu 2' i ben. Mae'r cytundeb newydd hwn yn eistedd ochr yn ochr â llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a dogfennau'r Cynllun Twf er mwyn sicrhau gweithrediad parhaus y Cynllun Twf.

Mae trefniadau llywodraethu'r Cynllun Twf yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw er budd y rhanbarth cyfan. Tra bod y Bwrdd Uchelgais (hyd at 31 o Fawrth 2025) ac yna Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd (ar ôl 1af Ebrill 2025) yn gweithredu fel y corff gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf, mae cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol cryf â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel arianwyr y Cynllun Twf.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. Mae'r dull hwn yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd. Adeiladu ar gryfderau'r rhanbarth i roi hwb i gynhyrchedd a mynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i

gyflawni twf cynhwysol. Y dull gweithredu yw hyrwyddo twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Cynllun Twf yn anelu at ddod â dros £1 biliwn o fuddsoddiad i'r Gogledd er mwyn cynhyrchu dros 4000 o swyddi newydd a chynnydd mewn GVA o £2.4 biliwn. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi £240 miliwn o gyfalaf ar y cyd dros gyfnod o 15 mlynedd, gyda'r gweddill wedi'i ddenu o ffynonellau preifat a chyhoeddus.

Bydd y deilliannau a ddymunir o'r buddsoddiad hwn yn cael eu cyflawni dwy gyflawni portffolio o bum rhaglen ar wahân sy'n:

- adeiladu ar ein cryfderau rhanbarthol mewn gweithgynhyrchu ac ynni carbon isel
- targedu arloesedd ac isadeiledd digidol i gysylltu'r rhanbarth yn well
- buddsoddi mewn safleoedd ac eiddo allweddol ar gyfer y farchnad datblygu
- galluogi arloesedd i roi hwb i gynhyrchedd
- cefnogi ein diwydiannau allweddol mewn twristiaeth ac amaeth i ddatblygu ar gyfer y dyfodol

Y Rhaglenni

Y pum rhaglen yw

- Ynni Carbon Isel,
- Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth,
- Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
- Cysylltedd Ddigidol
- Tir ac Eiddo.

Y Fframwaith Llywodraethu

Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru fframwaith llywodraethu wedi'i sefydlu yn seiliedig ar arfer gorau. Mae Cytundeb Llywodraethu 2 (cyn 31 o Fawrth 2025) a 'Cytundeb mewn perthynas a chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru gan Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd' (ar ôl 1af Ebrill 2025) yn diffinio swyddogaethau, pwerau a strwythurau atebolrwydd y Bwrdd a Chynllun Twf Gogledd Cymru. Mae gan Gynllun Twf Gogledd Cymru strwythur rheoli portffolio, rhaglenni a phrosiect wedi'i ddatblygu ac mae wedi datblygu fframwaith rheoli prosiectau i danategu'r gwaith o gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd y mae'r Bwrdd/Is-Bwyllgor yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli yn ei erbyn a hefyd y ffordd y mae'n atebol i'r Rhanbarth, yn ymgysylltu â'r Rhanbarth, ac yn arwain y Rhanbarth. Mae'n galluogi i'r Bwrdd/Is-Bwyllgor fonitro cyrhaeddiad ei hamcanion strategol ac i ystyried p'un a yw'r amcanion hynny yn/wedi arwain at gyflawni prosiectau priodol, perthnasol a gwerth am arian.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith hwnnw ac wedi'i dylunio i reoli risg i lefel resymol. Ei nod yw adnabod a blaenoriaethu'r risgiau allai rwystro gallu Uchelgais Gogledd Cymru i gyflawni ei bolisiau, ei nodau a'i amcanion. Mae'n gwerthuso tebygolrwydd ac effaith gwireddu'r risgiau sydd wedi'u hadnabod a rheoli risgiau unigol yn briodol.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi mabwysiadu a gweithredu cod llywodraethu corfforaethol yn seiliedig ar y Fframwaith *'Delivering Good Governance in Local Government'* a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Phrif Weithredwyr Ac Uwch Reolwyr y Gymdeithas Awdurdodau Lleol (SOLACE).

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn Uchelgais Gogledd Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 ac mae'n parhau i fod yn berthnasol hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Mae'r adran hon yn nodi sut mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cyflawni yn erbyn saith egwyddor sylfaenol llywodraethu corfforaethol fel y'u nodir gan CIPFA/SOLACE:

1. Uniondeb a Gwerthoedd

Ymddwyn gydag uniondeb, yn dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r gyfraith.

- Mae disgwyliadau'r Swyddfa Rheoli Portffolio, Aelodau Pwyllgor a'r Corff Atebol wedi'u nodi o fewn 'Cytundeb Llywodraethu 2', 'Cytundeb mewn perthynas â chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru gan Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd', a'r Cyfansoddiad. Mae'r Cytundebau a'r Cyfansoddiad yn nodi'r weithdrefn ar gyfer cyfarfodydd, strwythurau gwneud penderfyniadau, atebolrwydd democrataidd, polisi dirprwyaethau, trefniadau craffu ac yn cynnwys y Cod Ymddygiad.

Tud. 53

- Mae polisi gwrthdaro buddiannau ar waith sy'n cwmpasu'r Cynllun Twf, yn benodol ar gyfer y byrddau portffolio, rhaglenni a phrosiectau. Mae'n ddisgwyliad i staff y Swyddfa Rheoli Portffolio ynghyd a chynrychiolwyr ar y Bwrdd Uchelgais (cyn 31 o Fawrth 2025), Pwyllgorau (ar ôl 1af Ebrill 2025), Bwrdd Portffolio, Bwrdd Cyflawni Busnes (cyn 31 o Fawrth 2025) a phob Bwrdd Rhaglen a Phrosiect gwblhau ffurflen Datgan Diddordeb yn flynyddol. Disgwylir i ddiddordeb unigolyn ac sefydliadol gael ei gofnodi. Mae datganiadau o ddiddordeb yn eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgorau, Bwrdd Uchelgais, Bwrdd Portffolio, Bwrdd Cyflawni Busnes a phob Bwrdd Rhaglen a Phrosiect.
- Mae trefniadau Archwilio Mewnol ac Allanol yn eu lle.
- Fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ac wedi'i amlinellu yn y Cyfansoddiad, rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu is-bwyllgor o'r enw yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys 9 aelod, a bydd 6 ohonynt yn aelodau etholedig o bob un o'r 6 Cyngor Cyfansoddiadol ac yn cael eu henwebu gan bob un o'r 6 Cyngor Cyfansoddiadol a bydd 3 ohonynt yn Aelodau Lleyg. Bydd yr Is-bwyllgor hwn yn cael ei sefydlu yn ystod 2025/26.
- Mae pob adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais, Cyd-Bwyllgor Corfforedig a'r Is-Bwyllgorau yn cynnwys sylwadau gan swyddogion statudol cyfreithiol/cyllid neu ei dirprwyon ymlaen llaw i'w cyhoeddi.
- Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau cydymffurfiaeth ar bob penderfyniad sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd Uchelgais, Cyd-Bwyllgor Corfforedig a'r Is-Bwyllgorau.
- Mae trefniadau craffu ar waith gyda'r 6 awdurdod lleol.
- Wedi'i amlinellu yn y Cyfansoddiad, rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu is-bwyllgor o'r enw y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o fewn gweithrediadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd yr Is-bwyllgor hwn yn cael ei sefydlu yn ystod 2025/26.
- Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi datblygu a ymrwymo i gyfres o werthoedd ar gyfer y tîm:
 - i fod yn uchelgeisiol
 - i gyd weithio
 - i wneud y peth iawn
 - i wneud gwahaniaeth.

2. Didwylledd ac ymgysylltu

Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid.

- Mae cyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais, Cyd Bwyllgor Corfforedig a'r Is-Bwyllgorau yn gyfarfodydd agored ac mae rhaglenni, papurau a chofnodion yn cael eu cyhoeddi. Mae rhain ar hyn o bryd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd a oedd yn gorff atebol ar yr Bwrdd Uchelgais hyd at 31 o Fawrth 2025.
- Mae'r broses gwneud penderfyniadau wedi'i hamlinellu o fewn Cytundeb Llywodraethu 2.

- Caiff adroddiadau sy'n berthnasol i'r Cynllun Twf ac llesiant economaidd eu trafod gan y Bwrdd Portffolio cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais/Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd. Bydd ymgynghoriad priodol yn digwydd gyda Byrddau Rhaglenni a Phrosiectau, Llywodraethau a rhanddeiliaid allweddol.
- Mae'r trefniadau craffu yn caniatáu cyfranogiad gan aelodau o bob un o'r chwe awdurdod lleol.
- Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn hyrwyddo Uchelgais Gogledd Cymru ac yn annog ymgysylltu gyda'r gymuned ehangach yn y Gogledd fel yr amlinellir yn y Strategaeth Gyfathrebu.

3. Gwneud gwahaniaeth

Diffinio deilliannau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

- Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru weledigaeth glir yn ei lle; "Adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd."
- Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru Ddatganiad a Methodoleg Allyriadau Carbon ac Bioamrywiaeth.
- Mae fframwaith gwireddu buddion wedi'i ddatblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf.
- Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cyflwyno adroddiadau cynnydd chwarterol a blynyddol i'r ddwy Llywodraeth, y Bwrdd Uchelgais/Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd ac Pwyllgorau Craffu yr Awdurdodau Lleol.

4. Gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd

Pennu'r ymyraethau sydd eu hangen er mwyn gwneud y gorau wrth gyflawni'r deilliannau bwriadedig.

- Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi penodi Swyddfa Rheoli Portffolio i sicrhau y cyflawnir y Cynllun Twf.
- Mae Uwch Swyddog Cyfrifol wedi ei benodi ar gyfer Portffolio y Cynllun Twf.
- Mae Uwch Swyddogion Cyfrifol wedi'u penodi i bob Rhaglen a Phrosiect y Cynllun Twf.
- Mae Portffolio y Cynllun Twf wedi ei gefnogi gan Achos Fusnes Portffolio manwl.
- Caiff yr holl Raglenni eu cefnogi gan achosion busnes manwl.
- Mae gofyn i bob Prosiect gyflwyno achosion busnes manwl.
- Caiff yr holl achosion busnes eu datblygu yn unol â'r canllaw *Better Business Case*.
- Mae Proses Sicrwydd a Chymeradwyo symlach ar gyfer achosion busnes wedi'i datblygu gan Uchelgais Gogledd Cymru, gyda'r Is-bwyllgor Llesiant economaidd a'r ddwy Lywodraeth wedi ei chymeradwyo. Y nod yw symleiddio prosesau a chyflymu cyflwyno a dull mwy hyblyg a theilwra i'w weithredu.

5. Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi

Datblygu capasiti a gallu arweinyddiaeth ac unigolion.

- Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn sicrhau bod gan swyddogion y Swyddfa Rheoli Portffolio y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu rolau'n effeithiol. I sicrhau hyn, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn sicrhau

bod yr holl swyddogion newydd yn cael eu croesawu'n gynhwysfawr ynghyd â darparu hyfforddiant perthnasol i'w swyddi.

- Mae'r strwythur llywodraethu yn cynnwys Bwrdd Cyflawni Busnes. Roedd Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes yn ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd (hyd at 31 o Fawrth 2025). Yn ystod 2025 bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn sefydlu Bwrdd Cyngori Busnes, gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn cymryd rolau fel Ymgynghorwyr Anweithredol.
- Mae Cytundeb Llywodraethu 2 (cyn 31 o Fawrth 2025) a'r Cyfansoddiad (ar ôl 1af o Ebrill 2025) yn amlinellu'n glir rolau a chyfrifoldebau'r aelodau, yr ymgynghorwyr a'r swyddogion.
- Cyfarfodydd Bwrdd Portffolio a Pwyllgorau rheolaidd yn cael ei cynnal.

6. Rheoli risgiau, perfformiad a chyllid

Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

- Mae Cynllun Rheoli Risg yn ei le, a chyflawnir Adroddiadau Perfformiad a Risg chwarterol ar gyfer y Cynllun Twf i'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais/Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd.
- Mae'r Portffolio, y Rhaglenni a'r Prosiectau yn cwblhau Asesiadau Proffil Risg cyn unrhyw weithgaredd sicrwydd.
- Caiff Achos Busnes y Portffolio a'r Achosion Busnes Rhaglenni ei ddiweddarau a'i gymeradwyo'n flynyddol.
- Mae Swyddog Adran 151 y Corff Atebol yn cyflwyno Adroddiadau Ariannol chwarterol i'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais/Is-Bwyllgor, ac yr Cyd-Bwyllgor Corfforedig.
- Caiff y Gyllideb Flynyddol ei gosod ar y cyd gan Dîm Cyllid Cyngor Gwynedd (fel y Corff Lletya) a'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Caiff y Gyllideb Flynyddol ei chytuno gan y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais/Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Mae prosesau rheoli ariannol cadarn yn eu lle.
- Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i archwiliadau mewnol gan y corff lletya hyd at 31 Fawrth 2025. O'r 1af o Ebrill 2025 mae archwilio mewnol yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd ar sail gytundebol. Mae archwiliadau allanol gan Archwilio Cymru.
- Caiff adroddiadau Archwilio blynyddol eu cyflwyno gan Archwilio Cymru i'r Bwrdd Uchelgais/Cyd-Bwyllgor Corfforedig.
- Yn ystod 2025 bydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn sefydlu is-bwyllgor a elwir yn Is-Bwyllgor Llywodraethu a Archwilio fel sydd ei angen gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Bydd y Pwyllgor yn goruchwyllo trefniadau materion ariannol, rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

7. Tryloywder ac atebolrwydd da

Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn cyflawni atebolrwydd effeithiol.

- Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi datblygu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyaeth Integredig, Cynllun Monitro a Gwerthuso a Chynllun Busnes Portffolio.
- Caiff papurau cyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais, Cyd-Bwyllgor Corfforedig, ac Is-Bwyllgorau yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Cyngor Gwynedd (fel y Corff Lletya cyn 31 Mawrth 2025 ac wedi hynny y darparwr Gwasanaethau Democratiaeth cytuundebig) ynghyd â gwefan Uchelgais Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau perfformiad a risg chwarterol.
- Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cael Adolygiad Asesiad Prosiect (PAR) Portffolio a Rhaglen blynyddol gan ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Twf.
- Cyfarfodydd chwarterol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Mae prosiectau yn cael adolygiadau sicrwydd drwy gydol oes y prosiectau.
- Gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru.
- Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn seiliedig ar fframwaith CIPFA.


Llywodraethu'r Cynllun Twf



Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi datblygu Fframwaith Rheoli Prosiect sy'n amlinellu sut caiff prosiectau'r Bwrdd Uchelgais eu cyfarwyddo, eu rheoli, eu diffinio a'u cyfathrebu.

Mae'r Fframwaith yn darparu ymagwedd arfer gorau a fydd yn helpu i gyflawni cydlyniad ar draws prosiectau'r sefydliad drwy fabwysiadu un dull fel y cânt eu gweithredu yn yr un ffordd, drwy felly ddarparu cysondeb, dilyniant ac eglurder yn yr ymagwedd, y cyfathrebu a'r cynnyrch a grëir. Mae'r Fframwaith hwn yn cyd-fynd â chanllawiau prosiect Llywodraeth EM gyda dulliau sydd wedi'u teilwra i fodloni gofynion Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae'r diagram isod yn darparu trosolwg gweledol o'r fframwaith:

Hyd at 31 Mawrth 2025:





Caiff holl achosion busnes prosiectau Uchelgais Gogledd Cymru eu datblygu yn unol â chanllawiau *'Better Business Cases'* a'r model Pum Achos a ddatblygwyr gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM ynghyd â chanllaw Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Mae'r holl achosion busnes yn ddarostyngedig i Adolygiadau Porth annibynnol gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, ym mhob cam penderfyniad allweddol, yn unol â Phrosesau Porth Swyddfa'r Cabinet. Caiff trefniadau caffael arianwyr eu craffu fel rhan o'r broses hon.

Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru bolisi Gwrthdaro Buddiannau, sy'n pennu'r canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer adnabod achosion o wrthdaro buddiannau, eu monitro a'u rheoli, p'un a ydynt yn rhai go iawn neu'n rhai a allai ddigwydd. Yn unol â'r polisi, mae'r broses yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob unigolyn ddatgan eu buddiannau drwy gofrestr pro forma, a gwelwyd tystiolaeth o hyn. Caiff disgrifiad, ynghyd â manylion unrhyw gyswllt sydd ynghlwm â'r rhaglen y mae'n ymwneud â nhw, ei gofnodi, a chaiff y pro forma ei lofnodi a'i gadw ar gofnodion y swyddfa portffolio. Roedd Aelodau Etholedig ac Ymgynghorwyr yn ddarostyngedig i'r trefniadau hyn mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau drwy eu cod ymddygiad neu'r trefniadau cyfwerth yng Nghytundeb Llywodraethu (GA) 2 (cyn 31 Mawrth 2025) a'r Cyfansoddiad (ar ôl 1af Ebrill 2025).

Mae'r cytundeb ariannu rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a phrif arianwyr y prosiectau yn cwmpasu gwrthdaro buddiannau ynghyd â'r angen i gaffael mewn modd tryloyw, cystadleuol a chynaliadwy.

Materion Llywodraethu Sylweddol

Nid oedd unrhyw faterion llywodraethu sylweddol o fewn y flwyddyn.

Sicrwydd

Gweithiodd y Swyddfa Rheoli Rhaglen â Chanolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig sy'n nodi'r gweithgareddau sicrwydd a gynhelir ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Fel rhan o'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig, bydd gweithgareddau sicrwydd yn digwydd ar draws pob lefel o'r Cynllun Twf - portffolio, rhaglen a phrosiect. Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru'n defnyddio'r Porth 0-5 sydd wedi'i ddiffinio'n barod a'r Adolygiadau Asesu Prosiect, fel sy'n briodol ac yn gymesur.

Mae IAAP Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ymdrin â'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau.

Bydd gofyn i'r portffolio, y pum rhaglen a'r holl brosiectau o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru gwblhau Asesiadau Proffil Risg (RPA) cyn i unrhyw weithgaredd sicrwydd ddigwydd.

Cytunwyd gyda Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru y bydd Adolygiad Asesiad Portffolio, Rhaglen a Phrosiect blynyddol gan ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Twf.

Ar lefel prosiect, er y bydd union natur ac amseriad adolygiadau yn cael eu cytuno rhwng y Swyddfa Rheoli Portffolio, Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru ac SRO y Prosiect, bydd yr egwyddorion a ganlyn yn cael eu cymhwyso:

- Cynhelir adolygiadau sicrwydd prosiectau drwy gydol cyfnod y prosiect ar gyfnodau y cytunir arnynt ymlaen llaw cyn pwyntiau penderfyniad allweddol. Gall lefel y sicrwydd amrywio fesul prosiect, ond byddai'n cynnwys o leiaf ddau adolygiad Porth allanol i bob prosiect, gan gynnwys adolygiad Porth 2 ac adolygiad gwireddu buddion. Nodir isod y rhesymeg dros bob dull arfaethedig:
 - Porth Prosiect 1 (Achos Amlinellol Strategol) - Dim ond ei angen ar gyfer prosiectau newydd neu'r rhai sydd yn y cam cysyniad ar hyn o bryd yn sgil yr Achos Busnes Rhaglen cymeradwy. Yr holl brosiectau eraill i gynhyrchu Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Porth 2.
 - Porth Prosiect 2 (Achos Busnes Amlinellol) - Ei angen ar gyfer yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf.
 - Porth Prosiect 3 (Achos Busnes Llawn) - penderfyniad y Swyddfa Rheoli Portffolio ynghylch p'un a oes angen Porth 3 ar sail prosiect wrth brosiect. Cytunwyd rhwng y Swyddfa Rheoli Portffolio a Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru gan ystyried argymhellion o Porth 2.
 - Porth Prosiect 4 (Gweithredu) - penderfyniad y Swyddfa Rheoli Portffolio ynghylch p'un a oes angen Porth 3 ar sail prosiect wrth brosiect.

- Porth Prosiect 5 (Gwireddu Buddiannau) - Ei angen ar gyfer yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf.

- Adolygiad Asesu Prosiect - Gellir ei ddefnyddio yn lle Porth 1-5 lle mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio, mewn ymgynghoriad â Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei fod yn fecanwaith adolygu mwy priodol.
- Mae'n bosib y bydd angen Adolygiadau Sicrwydd Ôl-ddilynol yn dilyn Adolygiad Porth lle mae prosiect yn derbyn asesiad hyder cyflawni Ambr/Coch neu Goch, neu lle codi materion neu bryderon rhwng y Porth 1-5 traddodiadol.

Yn 2025, cafodd Proses Sicrwydd a Chymeradwyeth Symlach ei chymeradwyo. Nod y broses oedd i symud prosiectau i gyflawni yn gynt gan fabwysiadu dull seiliedig ar risg at ofynion achos busnes ac Adolygiadau Porth.

Fel rhan o'r broses symlach bydd yn ofynnol i brosiectau gynhyrchu achosion busnes yn unol â chanllawiau Better Business Case ac arfarniadau economaidd yn unol â'r Llyfr Gwyrdd. Fodd bynnag, bydd dull mwy hyblyg a theilwra yn cael ei weithredu:

- Mwy o ddefnydd o achosion busnes un cam yn unol â'r fframwaith arfaethedig isod:

- Achos Cyfiawnhad Busnes + (BJC+)

Mae Achosion Cyfiawnhad Busnes+ yn achosion busnes byrrach a gwblhawyd yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ond gyda chynnwys ychwanegol ar gaffael, cyllid ac effaith economaidd i alluogi asesiad yn erbyn gofynion y Cynllun Twf.

Cynigir y byddai'r achosion busnes hyn yn cael eu defnyddio yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

- Ar gyfer pob prosiect o dan gyfanswm buddsoddiad o £10m oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn risg uchel gan y PMO.
- Ar gyfer prosiectau o dan £25m lle mae cyfraniad y Cynllun Twf yn cynrychioli llai na 25% o gyfanswm y buddsoddiad oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn risg uchel gan y PMO.
- Ar gyfer unrhyw brosiectau eraill lle mae angen penderfyniad o fewn amserlen benodol i alluogi'r cyflawni i ddechrau o fewn 12 mis yn amodol ar gytundeb â swyddogion llywodraeth y DU/LIC.

- Busnes Llawn (FBC) Un Cam

Gellir cyflwyno FBCs un cam i'r Bwrdd ar gyfer prosiectau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf BJC+ yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- Lle mae caffael eisoes wedi'i gwblhau yn unol â gofynion UGC.
- Lle mae angen penderfyniad buddsoddi o fewn amserlen benodol i alluogi cyflawni i ddechrau o fewn 12 mis.

Tud. 62

- Ym mhob achos arall, byddai llwybr traddodiadol Achos Busnes Amlinellol (OBC)-Achos Busnes Llawn (FBC) yn cael ei ddefnyddio.

Ymrwymodd y Cynllun Twf fel rhan o'r Cytundeb Twf Terfynol y byddai pob prosiect yn ymgymryd ag adolygiadau Porth 2 (OBC) a Phorth 5 (Gwireddu Buddion). Mae hyn yn ychwanegol at adolygiad sicrwydd PAR Portffolio/Rhaglen sy'n digwydd yn flynyddol. O ystyried nifer y rhaglenni/prosiectau yn y Cynllun Twf, nid yw hon yn cael ei hystyried yn sefyllfa gynaliadwy a gall y gofynion sicrwydd gan gynnwys amser/adnoddau/cost ychwanegu oedi sylweddol i'r broses.

Mae'r cynnig yn un ar gyfer dull mwy seiliedig ar risg sy'n adlewyrchu dull mewnol y llywodraeth, gan ganiatáu i adolygiadau gael eu targedu at y prosiectau risg uchaf lle gallant gael yr effaith fwyaf.

Byddai'r prosiectau yn cwblhau'r ffurflen Asesu Potensial Risg (RPA) gyda'r PMO a'i chyflwyno i Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru i'w hadolygu. Ni fyddai'n ofynnol i brosiectau sydd ag asesiad crynodeb cyffredinol o 'Risg Isel' neu 'Risg Ganolig' gynnal Adolygiad Porth 2 neu gyfwerth.

Disgwyliad y PMO yw y byddai hyn yn cyd-fynd â'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa brosiectau all ddefnyddio'r llwybrau achos busnes BJC + symlach neu FBC un cam.

Byddai'n ofynnol i bob prosiect ymgymryd ag adolygiadau Gwireddu Buddion Porth 5.

Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb lefel uchel o'r Adolygiadau Pyrth mwyaf diweddar sydd wedi'u gwneud ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru:

Crynodeb o Adolygiadau Pyrth diweddar Cynllun Twf Gogledd Cymru

	Math o Adolygiad	Dyddiad	Asesiad Hyder Cyflawni
Adolygiadau Portffolio a Rhaglen			
Cynllun Twf Gogledd Cymru	PAR Rhaglen a Phortffolio	Medi 2023	AMBR/GOCH
Cynllun Twf Gogledd Cymru	Sicrwydd o Adolygiad Cynllun Gweithredu	Rhagfyer 2023	AMBR/GWYRDD
Cynllun Twf Gogledd Cymru	PAR Rhaglen a Phortffolio	Hydref 2024	GOCH
Adolygiadau Prosiect			
Porth Caergybi	Porth 2	Mehefin 2023	AMBR**
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	Porth 2 PAR	Medi 2023	AMBR
Cydnerth (Morlais)	Porth 2	Medi 2023	AMBR
Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy	Porth 2/3	Tachwedd 2023	AMBR
Safleoedd a Choridoriau Allweddol Cysylltiedig	Porth 2	Tachwedd 2023	AMBR
Hwb Hydrogen Caergybi	Porth 2	Mawrth 2024	AMBR/GWYRDD
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	Porth 3	Ebrill 2024	AMBR
Campysau Cysylltiedig	Porth 2	Mai 2024	AMBR
Parc Bryn Cegin	Porth 2	Medi 2024	AMBR
Anturiaethau Cyfrifol	Porth 2	Tachwedd 2024	AMBR

* AAP - Sicrwydd o Adolygiad Cynllun Gweithredu. Adolygiad dilynol yw hwn i gadarnhau bod digon o gynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiad cychwynnol lle rhoddwyd sgôr Coch neu Ambr-Goch.

** Amlygodd y tîm adolygu risg cydsynio sylweddol y tu allan i reolaeth y prosiectau sy'n ymwneud â Gorchymyn Adolygu'r Harbwr. Ers hynny mae hyn wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, gan ddileu'r risg.

Archwilio

Trefniadau Archwilio Mewnol ac Allanol

Mae Cyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Uchelgais Gogledd Cymru a bydd adroddiadau archwilio yng nghyswllt y Bwrdd/Pwyllgor yn cael eu hystyried yn unol â'i reolau a'i arferion arferol. Bydd Archwilio Mewnol yn ymgymryd â'u gwaith yn unol, gyhyd ag sy'n ymarferol, â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r *Local Government Application Note for the United Kingdom Public Sector Internal Audit Standards*. Er mwyn osgoi amheuaeth, caiff adroddiad archwilio mewnol blynyddol ei gyflwyno gan Reolwr Archwilio'r Corff Lletya i'r Bwrdd Uchelgais/Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Darperir gwasanaethau Archwilio Allanol drwy Archwilio Cymru a fydd yn adolygu a gwneud sylwadau ar agweddau ariannol Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, statws ariannol, systemau Rheolaeth Ariannol Mewnol a safonau ymddygiad ariannol a thwyll a llygredd.

Rheoli Risg

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi mabwysiadu Fframwaith Risg a Materion ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r Fframwaith yn nodi sut i reoli risgiau a materion ar y lefel briodol ar draws y portffolio, gyda phrosesau dyrchafu clir yn eu lle.

Mae ymagwedd y Portffolio at reoli risg wedi'i amlinellu yn Strategaeth Rheoli Risgiau a Materion y Cynllun Twf a'r Canllaw i Ddefnyddwyr. Mae'r ddogfen hon yn diffinio ac yn egluro'r egwyddorion rheoli risg, y cysyniadau, strwythurau, prosesau, tecynnau a'r rolau a'r cyfrifoldebau cysylltiedig a weithredir i sicrhau bod y risgiau i amcanion y Rhaglen yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Tynnir y prif egwyddorion a'r cysyniadau a amlinellir yn y strategaeth hon o ddeunydd Rheoli Risg yr OGC. Mae'r egwyddorion a'r cysyniadau hyn wedi cael eu teilwra'n briodol ar gyfer gofynion Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Mae'r Strategaeth Rheoli Risg a Materion ym mherchnogaeth y Swyddfa Rheoli Portffolio ac yn cael ei storio yn eu system rheoli dogfennau. Bydd angen i bob prosiect nodi eu strategaeth rheoli risg fel rhan o achosion busnes y prosiectau.


Mae'r Strategaeth yn nodi tair lefel o risg sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Twf gyda phroses uwchgyfeirio glir yn ei lle rhwng y tair lefel.

Risgiau Lefel Portffolio – Mae risg portffolio yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar un neu fwy o nodau strategol portffolio'r Cynllun Twf.

Risg Lefel Rhaglen – Mae risg rhaglen yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar o leiaf un budd rhaglen.

Risgiau Lefel Prosiect – Mae risg prosiect yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar o leiaf un amcan prosiect.

Figure 1.1 Proses Uwchgyfeirio Risgiau



Ffynhonnell: Uchelgais Gogledd Cymru

Crynodeb a Chasgliad

Mae'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd yn eu lle yn gadarn, yn dryloyw ac wedi'u seilio ar yr arfer gorau. Wrth i'r Cynllun Twf aeddfedu a dechrau ar y cyfnod cyflawni mae'n bwysig bod y trefniadau a'r prosesau yn cael eu hadolygu a'u haddasu'n barhaus i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn briodol â cham perthnasol y Cynllun Twf. Bydd yn dod yn fwyfwy pwysig sicrhau hyblygrwydd ac ystwythder o fewn y prosesau y cytunwyd arnynt i barhau gyda cyflawni y prosiectau presennol ynghyd a'r prosiectau ar y rhestr wrth gefn a'o symud i fod yn weithredol.

Yn ystod y trosglwyddiad i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig a'r strwythur lywodraethol newydd, mae'r trefniadau a prosesau wedi cael ei addasu i sicrhau parhad, atebolrwydd ac trosolwg effeithiol. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig drwy'r Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd yn darparu y fframwaith ar gyfer llywodraethu gan sicrhau fod y Cynllun Twf yn parhau i gael ei gyflawni gyda cywirdeb, eglurdeb ac ar gyfer budd y rhanbarth.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnal trefniadau llywodraethu a sicrwydd cryf, ac i gadw'r rhain dan adolygiad rheolaidd fel eu bod yn parhau i gefnogi cydweithio, gwerth am arian, a chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llwyddiannus.

Arwyddwyd ar ran Uchelgais Gogledd Cymru



Cynghorydd Mark Pritchard
Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig



Alwen Williams
Prif Weithredwr

Adroddiad archwilio arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Daflen Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2025 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o ddatganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Gyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes Gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Nodaf fod y Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi rhoi'r gorau i weithredu'n ffurfiol ar 31 Mawrth 2025, gyda'i swyddogaethau a'i wasanaethau wedi'u trosglwyddo i' Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Yn unol â Nodyn Ymarfer 10, mae'r dull darparu gwasanaeth parhaus yn berthnasol yng nghyd-destun y sector cyhoeddus, lle mae'r sail busnes gweithredol yn parhau'n briodol os disgwylir i'r gwasanaethau sylfaenol barhau, hyd yn oed os yw'r endid ei hun yn rhoi'r gorau i weithredu.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes Gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyd-bwyllgor yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. .

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyngor Gwynedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n ymwneud ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial am dwyll o ganlyniad i wrthwneud rheolaethau gan reolwyr;
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau; a
- chael dealltwriaeth am berthnasaoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr ac y Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ynghylch ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill;
- asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a
- gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau y Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Tud. 70

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
1 Rhagfyr 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol yw cynnal a chyfanrwydd gwefan Cyngor Gwynedd a Phennaeth Gweithrediadau ar gyfer gwefan Uchelgais Gogledd Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Geirfa

Ariannu Cyfalaf - Cyllid ar gyfer talu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd i ariannu gwariant cyfalaf yn cynnwys benthycu, lesu, cyllido'n uniongyrchol o refeniw, derbyniad cyfalaf i'w ddefnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, reserfau refeniw a reserfau wedi'u clustnodi.

Ased - Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyd-Bwyllgor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

Balansau (neu Reserfau) - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymadau gaiff eu hadnabod.

CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting) - Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

Cost Gwasanaeth Cyfredol - Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgwyli'r i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

Credydwy'r - Symiau yn ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Cronfa Gyffredinol - Prif gronfa refeniw'r Cyd-bwyllgor sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan gyfraniadau partneriaid a grantiau'r Llywodraeth.

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf - Reserf wedi ei glustnodi o adnoddau cyllid neu dderbyniad cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-daliad benthyciad allanol a mathau eraill o drafodion cyllido cyfalaf.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

Dibrisio - Mesuriad cost y budd economaidd yr asedau sefydlog diriaethol dreuliwyd yn ystod y cyfnod.

Dyledwyr - Symiau yn ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Enillion a Cholledion Actiwaraid - Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwarged actiwaraid sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraid a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraid wedi newid.

Gwariant Cyfalaf - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

Gwerth Teg - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

Partïon Cysylltiedig - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) - Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadau cyllidol eraill.

Ymrwymadau - Symiau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5111A2025



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	5
Perthnasedd	6
Canfyddiadau Archwilio	7
Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol	9
Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau	10
Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed	13
Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig	15
Atodiad 4 – Llythyr sylwadau	21
Ansawdd archwilio	24
Eich cefnogi chi	25

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae'n dda gennyf rannu fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Gyfrifon ar gyfer Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Cyd-bwyllgor), sy'n cwmpasu blwyddyn olaf ei weithrediadau cyn trosglwyddo ei swyddogaethau i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 1 Ebrill 2025.

Mae'r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2024-25. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda Dirprwy Swyddog Adran 151.

Mae fy nhîm wedi cwblhau y gwaith archwilio i raddau helaeth yn unol a nodwyd yn fy

Nghynllun Archwilio dyddiedig Gorffennaf 2025.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddarau perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2024-25. Nid wyf wedi adnabod unrhyw risgiau archwilio newydd. Caiff fy ymateb i risgiau a adnabuwyd yn flaenorol ei nodi yn **Atodiad 1**.

Mae'n ofynnol i mi ddarparu barn pa un a yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Caiff fy marn archwilio arfaethedig a'r sail drosti ei hamlinellu ar dudalen 15.

Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sef y Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion a staff y Cyd-bwyllgor am eu cydweithrediad trwy gydol y broses archwilio sydd wedi bod yn amhrisiadwy i allu cwblhau'r archwiliad hwn yn effeithiol.

Cipolwg ar eich archwiliad



Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon

Gweler [Atodiad 4](#)



Nid oes **materion arwyddocaol eraill** i'w nodi

Gweler y [Canfyddiadau archwilio](#)



Mae un **camddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon yr ydym yn dymuno eu dwyn i'ch sylw

Gweler y [Canfyddiadau archwilio](#)



Rydym yn anelu at ardystio eich cyfrifon ar **1 Rhagfyr 2025**, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar **28 Tachwedd 2025**. Mae hyn yn disgyn ar ôl y dyddiad cau statudol o 31 Hydref, na ellid ei gyflawni oherwydd amseriad cyfarfod y Cyd-bwyllgor.

Perthnasedd

Rwy'n defnyddio barn proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i adnabod a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith cyfrifyddu a'r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddarau perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy'n cynnwys materion sy'n mynd y tu hwnt i'm trothwy adrodd, a nodir isod.

Perthnasedd

Pennwyd lefel perthnasedd o 2% o wariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2024-25.

£271,000

Trothwy adrodd (dibwys)

Pennwyd lefel perthnasedd o 5%.

£14,000

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

Cydnabyddiaeth uwch swyddogion

£1,000

Datgeliadau partïon cysylltiedig (unigolion)

£10,000

Canfyddiadau Archwilio

Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifeg.

Camddatganiadau nas cywirwyd

Rydym yn nodi isod yr un camddatganiad a adnabuwyd gennym yn y cyfrifon, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n dal heb eu cywiro. Gofynnwn i chi gywiro'r camddatganiadau hyn.

Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi ddarparu eich rhesymau ar ein cyfer yn ysgrifenedig dros beidio â'u cywiro:

- Fe wnaethom adnabod problem gyda thrafodiad credydwr yn ymwneud â gwasanaethau cymorth a dderbyniwyd gan gwmni a fethodd ein profion. Er bod y darpariaeth yn cynnwys gwasanaethau ar gyfer Chwefror a Mawrth 2025, cadarnhaodd y cyflenwr fod y ddarpariaeth gwasanaeth wedi ymestyn i flwyddyn ariannol 2025–26. Gan nad oedd y cwmni'n gallu amcangyfrif y gyfran a ddarparwyd yn 2024–25, ystyriwyd bod gwerth llawn y sampl o £57,066.67 wedi'i gamddatgan. Ni chafwyd materion tebyg yn ystod y profion estynedig.

Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom rhai gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 2**.

Materion arwyddocaol eraill

Mae'r Safon Ryngwladol ar Gyfrifyddu 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i'ch goruchwyliaeth chi ar broses adrodd ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Nid chanfuwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

Ystyriaethau pellach ar gyfer 2025–26

Byddwn yn cydweithio â'r Cyd-bwyllgor, yn ogystal â'r sector ehangach, i adolygu ein huchelgais o symud y dyddiad cau ar gyfer yr archwiliad ymlaen i fis Medi 2026, fel rhan o broses archwilio cyfrifon 2025–26. Er mwyn cyrraedd y terfyn amser hwn, bydd yn hanfodol bod y cyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn cael eu cyflwyno'n brydlon, eu bod o ansawdd uchel ac yn cael eu cefnogi'n llawn – gyda'r holl bapurau gwaith ar gael ac wedi'u hasesu o ran ansawdd ar ddechrau'r archwiliad – a bod staff ar gael drwy gydol ffenestr yr archwiliad i sicrhau bod ymholiadau archwilio'n cael eu datrys yn brydlon.

Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft erbyn y dyddiad cau a gytunwyd, sef 30 Mehefin, a pharatowyd y phapurau gwaith yn barod ar gyfer dechrau'r broses archwilio. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai'r gostyngiad arfaethedig yn y ffenestr ar gyfer paratoi'r cyfrifon a'r archwiliad y flwyddyn nesaf greu heriau wrth geisio cyrraedd y terfynau amser yn y dyfodol.

Barn archwilio arfaethedig

Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 3**.

Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau ac ynddo rydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o'r wybodaeth hon yn ofynnol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad chi.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**, sy'n cynnwys sylwadau ychwanegol ar y camdatganiad uchod sydd heb ei gywiro.

Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol

Mae prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol

Arweinydd Ymgysylltu

Matthew Edwards

matthew.edwards@audit.wales [mailto:](mailto:matthew.edwards@audit.wales)

Rheolwr Archwilio

Yvonne Thomas

yvonne.thomas@audit.wales

Uwch-Archwilydd

Siwan Glyn

siwan.glyn@audit.wales

Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

Cafodd y mesurau diogelwch a nodwyd yn y Cynllun Archwilio mewn perthynas ag adnabyddiaeth yr Rheolwr Archwilio â aelod o Grŵp Gweithredol y Cyd-bwyllgor eu gweithredu'n briodol. Gan nad oedd y rôl yn cynnwys cyswllt uniongyrchol y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol, ac roedd trefniadau priodol ar waith i reoli unrhyw wrthdaro posibl, cadwyd annibyniaeth.

Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau

Roedd fy Nghynllun Archwilio'n nodi'r risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru'r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad. Nid adnabuwyd unrhyw risgiau archwilio ychwanegol ers hynny y mae angen eu dwyn i'ch sylw.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a'r canlyniad

Risg archwilio	Gwaith a wnaed	Canlyniad
Risg o wrthwneud gan reolwyr Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].	Fe wnaeth y tîm archwilio: • profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tuedd; a • gwerthuso'r rhesymeg sy'n sail i unrhyw drafodiadau sylweddol y tu allan i'r trywydd busnes arferol.	Ni chanfuwyd yn fy ngwaith unrhyw achosion o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr.

Prisio rhwymedigaeth net/gwarged cronfa bensiwn

Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ei gyfrifo.

Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog hefyd yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth, er enghraifft, ar 31 Mawrth 2024, roedd y rhwymedigaeth yn warged mewn gwirionedd, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.

Mae yna hefyd nifer o achosion cyfreithiol a allai effeithio ar brisiad rhwymedigaeth net.

Mae risg felly bod y rhwymedigaeth /gwarged yn cael ei gam-ddatgan yn faterol.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- werthuso'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- asesu cymhwysedd, galluedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;
- asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarperir gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;
- profi cywirdeb rhwymedigaeth net a datgeliadau'r gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraid oddi wrth yr actiwari;
- asesu pa mor rhesymol yw'r rhagdybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol; ac

Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn fy ngwaith archwilio mewn perthynas â phrasiad y pensiwn. Gweler Atodiad 2 am fy nghanfyddiadau ynghylch cyflwyniad y prasiad pensiwn.

- asesu pa un a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith perthnasol ar y rhwymedigaeth net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi cael ei gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.

Gweithredu'r Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IFRS) 16 – Prydlesi

Mae'n ofynnol i gyrff Llywodraeth Leol fabwysiadu SAAR 16 Lesoedd o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

Mae hyn yn newid yn sylweddol y driniaeth a'r datgeliadau cyfrifyddu sy'n ofynnol ar gyfer asedau ar les ac mae'n golygu y bydd y rhan fwyaf o lesoedd yn arwain at ased a rhwymedigaeth ar fantolenni.

Mae risg nad yw gofynion SAAR yn cael eu mabwysiadu'n briodol ac o ganlyniad mae'r datganiadau ariannol yn cael eu cam-ddatgan yn berthnasol.

Cadarnhaodd ein canfyddiadau nad oedd y corff yn dal unrhyw gontractau prydlesu yn ei enw ei hun. Yn hytrach, roedd yr holl drefniadau prydlesu perthnasol wedi'u dal yn enw'r awdurdod lletyol. O ganlyniad, nid oedd gofyniad i'r corff gynnwys nodyn cysylltiedig â phrydlesi o dan IFRS 16 yn ei ddatganiadau ariannol.

Ni chanfuwyd unrhyw faterion yn fy ngwaith archwilio mewn perthynas â'r datgeliadau o dan IFRS 16.

Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Gwerth y cywiriad	Maes yn y cyfrifon	Eglurhad
£233,000	Nodyn 13 Arian a chywerthoedd arian / Nodyn 14 Credydwy'r tymor byr Nododd profion archwilio fod trafodion a nodwyd fel arian parod wrth gludo ar 31 Mawrth 2025 wedi'u hadnabod mewn camgymeriad fel credydwy'r. Gan ystyried fod y cyfarwyddyd talu i'r banc wedi'i wneud cyn diwedd y flwyddyn, nid oedd gan yr endid ymrwymiad bresennol o ran y ddyled, ac nid oedd gyda rheolaeth dros yr ased cysylltiedig. O ganlyniad, roedd credydwy'r tymor byr ac arian mewn banc wedi eu or-ddatgan o £233,000. Mae credydwy'r tymor byr wedi'u diwygio o £4.773 miliwn i £4.540 miliwn. Mae arian yn y banc wedi'i ddiwygio o £53.949 miliwn i £53.716 miliwn. O ystyried y canllawiau cyfyngedig yng Nghod Ymarfer CIPFA ar gyfer y senario penodol hwn, ymgynghorwyd â Fframwaith Cysyniadol IASB i sicrhau bod y driniaeth gyfrifyddu wedi'i chefnogi'n briodol.	Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.

Datgeliad yn unig

Nodyn 24 Costau Pensiwn

Nid oedd y ffigurau asedau a rhwymedigaethau a gyflwynwyd mewn perthynas â'r nenfwd ased yn cyfateb yn gywir i'r ffigwr net (rhwymedigaeth)/ased a adroddwyd, gan arwain at wall traws-gastio. Gan nad yw Cod Ymarfer CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gydrannau asedau a rhwymedigaethau ar wahân, cytunwyd i symleiddio'r cyflwyniad trwy ddatgelu'r sefyllfa net yn unig, a thrwy hynny ddatrys yr anghysondeb.

Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.

Bu hefyd nifer fach o newidiadau mân i'r naratif a'r ffigyrau o ganlyniad i'n gwaith.

Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Daflen Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2025 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o ddatganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Gyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes Gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Nodaf fod y Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi rhoi'r gorau i weithredu'n ffurfiol ar 31 Mawrth 2025, gyda'i swyddogaethau a'i wasanaethau wedi'u trosglwyddo i' Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Yn unol â Nodyn Ymarfer 10, mae'r dull darparu gwasanaeth parhaus yn berthnasol yng nghyd-destun y sector cyhoeddus, lle mae'r sail busnes gweithredol yn parhau'n briodol os disgwylir i'r gwasanaethau sylfaenol barhau, hyd yn oed os yw'r endid ei hun yn rhoi'r gorau i weithredu.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes Gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad

perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;

- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyd-bwyllgor yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyngor Gwynedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n ymwneud ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;

- canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial am dwyll o ganlyniad i wrthwneud rheolaethau gan reolwyr;
 - cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau; a
 - chael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr ac y Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ynghylch ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill;
- asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrddedd bosibl; a
- gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra,

effeithiolrwydd rheolaethau y Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwrmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
1 Rhagfyr 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd y corff a archwilir]

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd

CF10 4BZ

13 Tachwedd 2025

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2024-25

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 at ddiben mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2024-25; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
 - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
 - mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam-ddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac sy'n cynnwys:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasodd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghydestun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasodd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymglyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd. Ceir crynodeb o hyn isod:

- Cafodd darpariaeth credydwr ei chynnwys ar gyfer gwasanaethau a dderbyniwyd ym mis Chwefror a Mawrth 2025, fodd bynnag, cadarnhaodd y cyflenwr fod y ddarpariaeth gwasanaeth wedi ymestyn i flwyddyn ariannol 2025–26. Gan nad oedd y cwmni'n gallu amcangyfrif y gyfran a ddarparwyd yn 2024–25, ystyriwyd bod y swm llawn o £57,066.67 wedi'i gamddatgan.

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi dewis peidio â phrosesu'r addasiad hwn yn y datganiadau ariannol ar gyfer 2024–25 gan ei fod yn cael effaith anfaterol ar y cyfrifon.

Sylwadau gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar 28 Tachwedd 2025.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Signed by:
Dewi Aeron Morgan
Pennaeth Cyllid,
Cyngor Gwynedd
28 Tachwedd 2025

Llofnodwyd gan:

Signed by:
Cynghorydd Mark Pritchard
Cadeirydd Cyd-bwyllgor
Corfforedig Gogledd Cymru
28 Tachwedd 2025

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlyn a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024](#).



Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Plattform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y problem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwleidiadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.





CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

28 Tachwedd 2025

TEITL: Ffurflen Flynyddol Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2024/25

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)
Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cael cymeradwyaeth ar gyfer Ffurflen Flynyddol ddiwygiedig y CBC ar gyfer 2024/25 yn dilyn archwiliad gan Archwilio Cymru.

2. CEISIWYD AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol ddiwygiedig y CBC ar gyfer 2024/25 (ar ôl archwiliad allanol). Mae wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan Swyddog Cyllid Statudol y CBC (Atodiad 1).

3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (ar ôl archwiliad allanol) y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2024/25. Gwnaed diwygiad i balansau credydwy ac arian a buddsoddiadau gan fod trafodion a nodwyd fel arian parod wrth gludo ar 31 Mawrth 2025 wedi'u hadnabod fel credydwy.
- 3.2. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y CBC, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio'r ffurflen.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol 2024/25 (yn amodol ar archwiliad) i'r CBC ar 18 Gorffennaf 2025, pryd bu craffu priodol.
- 4.2. Mae'r Ffurflen Flynyddol ddiwygiedig a gyflwynwyd yma i'r CBC ar 28 Tachwedd 2025 wedi'i archwilio gan Archwilio Cymru.
- 4.3. Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2024/25 i'r CBC ar 13 Mehefin 2025. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 5.1. Fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforaethol, oherwydd nad yw ei drosiant yn fwy na £2.5m yn 2024/25, baratoi ffurflen flynyddol a rhaid paratoi hyn yn unol ag arferion priodol fel y nodir gan ddeddfwriaeth.



ATODIADAU:

Atodiad 1: Ffurflen Flynyddol Derfynol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w ychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

Ffurflen Flynyddol Cydbwyllgorau Llai yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2025

Datganiadau cyfrifyddu 2024-25 ar gyfer:

Enw'r Pwyllgor:

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

	Diwedd y flwyddyn		Nodiadau ac arweiniad
	31 Mawrth 2024 (£)	31 Mawrth 2025 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau			
1. 1. Balansau a ddygwyd ymlaen	238,098	892,560	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	764,820	764,820	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbynebau eraill	47,344	238,240	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a referniw.
4. (-) Costau staff	-92,514	-100,566	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, lwfansau trethadwy, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a chostau terfynu. Eithriwch adalu mân dreuliau.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthycha allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	-65,188	-682,383	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (linell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (linell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	892,560	1,112,671	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6).
Datganiad o falansau			
8. (+) Dyledwyr	294,873	90,315	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Rhowch werth dyledion sy'n ddyledus i'r Pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian a buddsoddiadau	852,363	1,421,277	Yr holl gyfrifon: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol ac adnau, daliadau arian parod a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn gytuno â'r balans llyfr arian parod wedi'i gymodi yn unol â'r cysoniad banc.
10. (-) Credydwyr	-254,676	-398,921	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Rhowch werth yr arian sy'n ddyledus gan y Pwyllgor (ac eithrio benthycha) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	892,560	1,112,671	Dylai cyfanswm balansau gydradd llinell 7 uchod: Rhowch gyfanswm (8 + 9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	0	0	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiad yr holl asedau sefydlog ac unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthycha	0	0	Y balans cyfalaf sy'n weddill ar 31 Mawrth o'r holl fenthyciadau gan drydydd partion (gan gynnwys PWLB).

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod fel aelodau'r Pwyllgor ein cyfrifoldeb dros sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, mewn perthynas â'r datganiadau cyfrifeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytûn?		Mae 'IE' yn golygu bod y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf PG
	le	Na*		
1. Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: - rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a - paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.	le		Mae'n pennu ei gyllideb yn briodol ac yn rheoli ei harian ac yn paratoi ac yn cymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y'u rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12
2. Cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac wedi adolygu ei effeithiolrwydd.	le		Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu'r arian a'r adnoddau cyhoeddus wrth ei wefru.	6, 7
3. Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ein hunain nad oes unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor gynnal ei fusnes neu ei sefyllfa ariannol..	le		Dim ond pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac mae wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau yn y ffordd y mae wedi gwneud hynny.	6
4. Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	le		Wedi rhoi'r cyfle i bob person sydd â diddordeb archwilio cyfrifon y Pwyllgor fel y nodir yn yr hysbysiad archwilio.	6, 23
5. Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor a chymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle bo angen.	le		Ystyried y risgiau ariannol ac eraill y mae'n eu hwynebu wrth weithredu'r Pwyllgor ac mae wedi delio â nhw'n iawn.	6, 9
6. Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'r cofnodion cyfrifeg a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi derbyn adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	le		Wedi'i drefnu i berson cymwys, sy'n annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ynghylch a yw'r rhain yn diwallu anghenion y Pwyllgor	6, 8
7. Ystyried a yw unrhyw ymglyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, sy'n digwydd naill ai yn ystod neu ar ôl diwedd y flwyddyn, yn cael effaith ariannol ar y Pwyllgor a, lle bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	le		Datgelu popeth y dylai ei gael am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ôl diwedd y flwyddyn os yw'n berthnasol.	6
8. Cymryd camau priodol ar yr holl faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol o archwilio mewnol ac allanol.	le		Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â materion/gwendidau a ddygir i'w sylw gan yr archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

* Rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar ddalen ar wahân ar gyfer pob ymateb 'na' a roddir; a disgrifio pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Nodiadau datgelu ychwanegol*

Darperir y wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darlennydd i ddeall y datganiad cyfrifeg a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	
1.	
2.	
3.	

* Cynhwyswch yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol y mae'r Pwyllgor o'r farn eu bod yn angenrheidiol i gynorthwyo dealltwriaeth y darlennydd o'r datganiad cyfrifeg a/neu'r datganiad llywodraethu blynnyddol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifeg a'r datganiad llywodraethu blynnyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol Rwy'n ardystio bod y datganiadau cyfrifeg a gynhwysir yn y Ffurflen Flynyddol hon yn cyflwyno sefyllfa ariannol y Pwyllgor 'i incwm a'i wariant, neu gyflwyno derbynebau a thaliadau yn briodol, yn ôl y digwydd, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.	Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Rwy'n cadarnhau bod y datganiadau cyfrifeg hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan funud:
Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol: 	Cyfeirnod cofnodion:
Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:	
Enw: Dewi Aeron Morgan	Enw: Mark Pritchard
Dyddiad: 19/11/2025	Dyddiad:

Adroddiad archwilio mewnol blynyddol i:

Enw'r Pwyllgor:

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

- 6.1. Mae'r CBC wedi sicrhau cyllid ychwanegol o £200k gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dilyniant RTP ac RTDP ym mlwyddyn ariannol 2025/26.
- 6.2. Mae gwariant ariannol ar gymorth ymgynghori hyd yma wedi cael ei ddefnyddio i gomisiynu ARUP i ddarparu cymorth technegol a chyflenwi ers dechrau 2024 ar gyfer pob elfen o ddarparu RTP. Ar hyn o bryd mae'r gwariant hwn (rhwng 2023/4 a Medi 2025) yn £312,999.41. O hynny, hawliwyd £271,281.95 o grant Llywodraeth Cymru.
- 6.3. Ymunodd Uwch Swyddog Trafnidiaeth ag Uchelgais Gogledd Cymru ym mis Awst ar secondiad dwy flynedd o Drafnidiaeth Cymru. Mae hyn yn dangos y bartneriaeth sy'n gweithio rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni RTP a RTDP. Disgwylir y bydd yr Uwch Swyddog Trafnidiaeth yn ymgymryd â chyfrifoldebau'r CBC wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r RTP, gyda chefnogaeth tîm ehangach Uchelgais Gogledd Cymru.
- 6.4. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn prynu cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletyol. Mae hyn yn rhoi amser i swyddogion ar gyfer cymorth ar Wasanaethau Cyfreithiol, Gwasanaethau Democrataidd, a chymorth cyllid.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 7.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 8.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

Atodiad A - Llythyr 2il o Fedi gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Atodiad B - Llythyr 17eg o Fedi gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Credaf fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa gyfredol. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.”

Alwen Williams
Chief Executive
Ambition North Wales
Government Buildings
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy
LL31 9RZ

Your Ref: AW/ls
2nd September 2025

Dear Ms Williams,

RE: The North Wales Regional Transport Strategy

Thank you for your letter of 9th July 2025. We would like to make the following points in relation to it:

We welcome the removal of the Red Route from the draft North Wales Regional Transport Plan (dNWRTP), in conjunction with your confirmation that the dNWRTP is not pursuing its re-emergence. We further welcome removal of the term "paused" as set out in your letter.

However, we remain concerned at your statement that one of the duties of the dNWRTP is to set out "regional aspirations" for the strategic road network (SRN). We have examined Welsh Government statutory advice to CJsCs with regard to the formulation of RTPs, and the secondary legislation relating to the establishment, roles, and powers of CJsCs with regard to transport, and we can find no reference to this purported "aspirational" role of RTPs. Indeed, points 1 and 9 in the Welsh Government statutory guidance state:

1. We DO want the RTPs to be firmly focused on achieving modal shift.

9. We DO want you to include disincentives for car use as well as incentives for more sustainable travel.

We would be grateful if you could inform us as to where reference to the supposed aspirational role of RTPs occurs in the guidance and/or legislation.

Whilst the above may seem somewhat academic, "aspirational" statements in statutory documents are a bad practice example of the phenomenon of "creeping validation". This is the process whereby references to policy or project initiatives, where such references are made by authorities acting beyond their remit, gather materiality to themselves, by being subsequently cited by the authority to whom the powers to pursue such initiatives fall. Thus the dNWRTP's statement at new SRN3 that the CJC ***"Supports the Welsh Government reviewing the case for strategic highway schemes where these can provide wider benefits and enhance facilities for sustainable travel"***, being aspirational, should have no materiality, because in making such a statement, the CJC is acting beyond its remit and against statutory guidance and legislation. Indeed, and in support of this, the SEA of the dNWRTP explicitly declines to assess the environmental implications of such statements on the grounds that they are aspirational, stating that they are ***"for others to decide upon"***, thus confirming that they have no materiality.



Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust

northwaleswildlifetrust.org.uk

info@northwaleswildlifetrust.org.uk

Prif Swyddfa:

Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351 541

Swyddfa Dwyrain:

Aberduna, Ffordd Maeshafn,
Maeshafn, Sir Ddinbych,
CH7 5LD
01248 351 541

Head Office:

Llys Garth, Garth Road,
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351 541

East Office:

Aberduna, Maeshafn Road,
Maeshafn, Denbighshire,
CH7 5LD
01248 351 541

However, you state on page 2 of your letter that it is ***"important that the Regional Transport Plan sets out options to address transport related problems on the SRN and highlight regional aspirations for strategic roads"***. This is illogical. Such statements cannot be so important as to merit inclusion in the dNWRTP, whilst at the same time being not important enough to merit being subject to statutory SEA.

We therefore advocate that, at a minimum:

1. The final version of the dNWRTP to be sent to the Welsh Ministers should include a paragraph to the effect that its aspirational statements in relation to project development have no materiality in project/policy formulation, and
2. Aspirational statements at SRN3, for example, are re-formatted and redesigned to clearly distinguish them from statutory RTP policies.

Does the dNWRTP support new highway construction schemes?

Whilst we welcome several of the changes set out in the July 2025 version of the dNWRTP and subsequent additional changes set out in your letter, it is still not clear whether or not the CJC supports making the case for new highway schemes as part of the strategic road network in general or at any particular location on it in particular.

The amended text of SRN3 set out in your letter states:

"SRN Aspiration 3: The case for delivering selected paused strategic highway schemes should be reviewed, particularly where these can provide wider benefits and enhance facilities for sustainable travel. Priority routes are the A494/A55/Flintshire Corridor"

However, this appears to us to be contradicted by the consultants' report into responses to objectors' representations that the CJC does not support re-examining the case for the Red Route (and as an aside, we have received communication from the Cabinet Secretary for Transport that this is also the Welsh Government's approach).

One interpretation of the new text set out in your letter is that the CJC supports the re-examination of transport-related problems at certain locations/corridors on the strategic road network, but, crucially that that re-examination would not result in a recommendation for completely new major highway construction on the part of the CJC. The implication of this interpretation is that the CJC supports the examination of the full gamut of possible solutions to transport-related problems on the strategic road network, including on- or near-line upgrade-related solutions, public and active travel-related solutions and non-physical works-related solutions (SMART measures). This approach would appear to us to be reasonable, and to be in conformity with the Wales Transport Strategy Y Llwybr Newydd, in accordance with which the NWRTP must act.

In the light of the above, and on the understanding that we are broadly in agreement in relation to this matter, we respectfully advocate that, in the interest of clarity, SRN 3 be amended as follows. Our suggested amendments below are in red:

"SRN Aspiration 3: The case for delivering selected paused strategic highway schemes should be reviewed, particularly

northwaleswildlifetrust.org.uk

info@northwaleswildlifetrust.org.uk

Prif Swyddfa:

Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351 541

Swyddfa Dwyrain:

Aberduna, Ffordd Maeshafn,
Maeshafn, Sir Ddinbych,
CH7 5LD
01248 351 541

Head Office:

Llys Garth, Garth Road,
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351 541

East Office:

Aberduna, Maeshafn Road,
Maeshafn, Denbighshire,
CH7 5LD
01248 351 541

where these can provide wider benefits and enhance facilities for sustainable travel, and are in conformity with the transport mode hierarchy set out in the Wales Transport Strategy Y Llwybr Newydd. Priority routes are the A494/A55/Flintshire Corridor and the A483 Wrexham.

However, it should be noted that aspirational statement SRN3 cannot be delivered by the RTP, as the strategic highway network is the responsibility of the Welsh Government, not local authorities. Thus, SRN3 is not a Regional Transport Plan policy.

The CJC's Ongoing Discussions with the Welsh Government with Regard to the Strategic Road Network:

We note at page 3 of your letter the statement that:

"we have engaged with the Trunk Road Agent and the Welsh Government to help understand their priorities and plans, to inform the Regional Transport Plan's 'strategic road network aspirations'"

We would be most grateful if you could inform us whether such discussions are in the public domain, and if so, how they can be accessed by us and others.

The Version of the dNWRTP to be Submitted to the Welsh Ministers:

Notwithstanding our suggested changes set out in this letter, and in the interests of clarity, we would be most grateful if you could confirm in writing that it is the July 2025 version of the dNWRTP, amended by the changes set out in your letter of July 9th which will be submitted to the Welsh Ministers, and that no further changes in relation to highways will be proposed or made to the dNWRTP.

We would be most grateful if you could keep us informed of developments in relation to the NWRTP.

We would further be grateful if you could acknowledge receipt via email.

Yours sincerely,



Adrian Lloyd Jones
Head of Living Landscapes

northwaleswildlifetrust.org.uk

info@northwaleswildlifetrust.org.uk

Prif Swyddfa:

Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351 541

Swyddfa Dwyrain:

Aberduna, Ffordd Maeshafn,
Maeshafn, Sir Ddinbych,
CH7 5LD
01248 351 541

Head Office:

Llys Garth, Garth Road,
Bangor, Gwynedd, LL57 2RT
01248 351 541

East Office:

Aberduna, Maeshafn Road,
Maeshafn, Denbighshire,
CH7 5LD
01248 351 541



ARE-BOST: Adrian.Jones@northwaleswildlifetrust.org.uk

Adrian Lloyd Jones,
Pennaeth Tirweddau Byw,
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Ein Cyf / Our Ref: AW/AG-Is
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: 17 Medi, 2025

Annwyl Mr. Jones,

CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Medi, 2025. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth, gan nodi'r newidiadau a wnaed i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) mewn ymateb i'ch llythyr blaenorol ac ymatebion eraill a gawsom, ynglŷn â geiriad Dyhead SRN 3 yn yr RTP drafft. Rydym yn croesawu eich cyfranogiad yn y broses hon hyd yma ac, ymhellach i'r ymateb hwn, yn cynnig cynnal cyfarfod efo chi i drafod unrhyw bryderon pellach sydd gennych.

Dyhead SRN 3

Roedd adran Pwyntiau Allweddol y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i CBC sy'n datblygu RTPs yn cynnwys, fel y dywedwch, yr angen i ganolbwyntio ar newid moddol a chael gwared ar y cymhelliant i ddefnyddio ceir. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hefyd yn nodi disgwiliad bod yr RTP yn ystyried cyfleusterau a gwasanaethau trafndiaeth sydd:

- Eu hangen i gwrdd ag anghenion pobl sy'n byw neu'n gweithio yn y rhanbarth, sy'n ymweld neu sy'n teithio drwy'r rhanbarth;
- Yn angenrheidiol ar gyfer cludo nwyddau.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi sut mae'n rhaid i RTPs gynnwys trosolwg sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r sefyllfa drafnidiaeth bresennol a'r newidiadau tebygol dros gyfnod y cynllun - wedi'i gysylltu'n agos â chynllunio defnydd tir. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd a rhwystrau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a dylai gyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol.

Mae rhwydwaith ffyrdd strategol Gogledd Cymru yn hanfodol i, ac mae'n siŵr y bydd yn parhau i fod yn hanfodol i, ddiwallu anghenion trigolion, cymudwyr ac ymwelwyr; ac mae'n hanfodol i ddiwallu anghenion y sector cludo nwyddau, a'n porthladdoedd. Ar ben hynny, mae'n hanfodol bod ein rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus a'n gwasanaethau yn cael eu hintegreiddio â'n rhwydwaith priffyrdd er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer newid moddol a lleihau allyriadau cerbydau preifat. Adlewyrchir hyn yn llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar yr RTP drafft.

Felly, rydym wedi ceisio cynhyrchu RTP sy'n ystyried cyd-destun materion ffyrdd a rheilffyrdd strategol er mwyn adlewyrchu'n gywir y problemau trafndiaeth allweddol yng Ngogledd Cymru, fel y cefnogir gan dystiolaeth dechnegol ac adborth rhan-ddeiliaid. Mae gennym swyddogaeth statudol i ddatblygu polisiau trafndiaeth yn y rhanbarth. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau'r RTP, rydym wedi





bod yn glir i beidio â chyflwyno polisiau yn yr RTP sy'n effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd strategol neu'r rhwydwaith rheilffyrdd, na chynnig cynlluniau yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, na allai ein partneriaid awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru eu cyflawni.

Ar ôl ystyried datblygiad yr RTP trwy'r broses benderfynu a sefydlwyd drwy drefn llywodraethu'r CBC, rydym yn fodlon ei fod yn gwneud yn glir nad oes gan y CBC, nac awdurdodau lleol, unrhyw ddylanwad uniongyrchol ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol: *"nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ddylanwad uniongyrchol ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi opsiynau i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ar y rhwydwaith ffyrdd strategol ac yn tynnu sylw at ddyheadau rhanbarthol ar gyfer ffyrdd strategol gan fod y rhain yn allweddol i gefnogi ein dyheadau cysylltedd ehangach ar gyfer Gogledd Cymru."* Dyma pam mae adran SRN y Cynllun yn cynnwys dyheadau, tra bod yr adrannau sy'n ymwneud â chyflawni rhanbarthol yn rhai lle mae gennym ddylanwad mwy uniongyrchol i ddatblygu polisiau y gallwn eu symud ymlaen.

Mae'r Dyhead SRN3 diwygiedig yn nodi barn y CBC bod angen adolygu'r achos dros gynlluniau priffyrdd strategol lle mae manteision ehangach posibl. Byddai unrhyw adolygiad yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru, ac ni fyddai'n briodol rhagflaenu canfyddiadau unrhyw adolygiad yn yr RTP. Mae'r dyhead fel mae wedi'i ysgrifennu ar hyn o bryd yn cydnabod y dylai cynlluniau priffyrdd strategol sy'n effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd strategol gael eu hadolygu yng nghyd-destun darparu ystod ehangach o fanteision gan gynnwys hwyluso teithio cynaliadwy. Nid yw hyn yn mynegi cefnogaeth i unrhyw atebion a hyrwyddwyd yn flaenorol nac yn ceisio dylanwadu ar ganlyniad unrhyw adolygiad.

Trafodaethau Parhaus y CBC gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol:

Mae'r ymgysylltiad â'r Asiant Cefnffyrdd a Llywodraeth Cymru wedi ceisio helpu i sicrhau bod y testun sydd wedi'i gynnwys yn yr RTP yn adlewyrchu eu cynlluniau a'u safbwynt ar yr SRN. Mae ymgysylltu wedi digwydd trwy gyfarfodydd ar-lein rheolaidd i helpu i siapia'r RTP wrth ei ddatblygu. Fel rhan o gefnogaeth Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu ei adolygiad o'r RTP a dogfennau cysylltiedig ar gerrig milltir allweddol, mae wedi ymgysylltu â'i adrannau perthnasol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'w dimau trafndiaeth gyhoeddus a phriffyrdd.

Fersiwn y NWRTP a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru

Gallaf gadarnhau mai fersiwn yr RTP a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 yw'r fersiwn derfynol arfaethedig sydd wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, ar ôl i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ei ystyried ac yn dilyn penderfyniad y CBC i gymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf.

Ar ôl i'r CBC ei gymeradwyo, cyflwynwyd yr RTP i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru ac nid oes gennym unrhyw gyfle i wneud diwygiad pellach ar y cam hwn. Fodd bynnag, byddwn yn anfon eich gohebiaeth a'r ateb hwn at Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn gweld y materion rydych wedi'u codi.

Yn gywir,

Alwen Williams

Alwen Williams
Prif Weithredwr





CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

28 Tachwedd, 2025

TEITL: Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam - Cynllun Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 1

AWDURON: Alwen Williams, Prif Weithredwr
Iain Taylor, AMION Consulting

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae ffocws yr adroddiad hwn ar Gynllun Cyflawni Blynyddol (CCP) Blwyddyn 1 ac yn nodi'r rhaglen arfaethedig ar gyfer y Flwyddyn 2025-2026.
- 1.2. Dylid ystyried yr adroddiad hwn yng nghyd-destun yr adroddiad i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ynghylch Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam a'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA), y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y CBC ar 7 Tachwedd, 2025.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r CBC ystyried yr eitemau a ganlyn i'w cymeradwyo:
 - Dyraniadau buddsoddi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol;
 - Rhaglenni'r Parth Buddsoddi fel y nodir yn Adran 3 yr adroddiad hwn;
 - Cylch Gorchwyl Gweithgor Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam (**Atodiad 1**);
 - Y caniateir i Swyddog Adran 151 y CBC lofnodi a chyhoeddi dogfennau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a gwneud unrhyw ddiwygiadau ansylweddol pellach sy'n angenrheidiol i gytuno ar y CCB gyda'r ddwy Lywodraeth.

3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1. Cefndir

Mae'n ofynnol i Barthau Buddsoddi gytuno ar Gynlluniau Cyflawni Blynyddol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau'r taliad blynyddol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill ym mhob blwyddyn ariannol. Talir arian ymlaen llaw ym mis Ebrill ar gyfer gwariant disgwylidig yn y flwyddyn ariannol. Adroddir ar wariant ym mhob Cynllun Cyflawni Blynyddol ac unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol.



3.2. Trosolwg o'r Rhaglen

Mae'r gweithgareddau strategol ar gyfer 2025-26, trwy ymyrraeth, wedi'u rhestru yn 3.2.1 i 3.2.4. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn wedi'u cwblhau fel rhan o broses cynnig y Parth Buddsoddi ac mae rhai ar y gweill:

3.2.1 Cynllunio a Rhaglen

- paratoi a chytuno â gofynion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer Pyrth 1 – 5 ym mhroses cynnig y Parth Buddsoddi fel y nodir yng nghanllawiau'r Llywodraeth ar gyfer Cymru
- paratoi a chytuno â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth
- paratoi a chytuno â'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod
- datblygu a chytuno â Chynllun Gweithredu Safle Treth
- datblygu a chytundeb y Cyngor i Gynllun Cychwyn Cronfa Buddsoddi Ardrethi Annomestig Wrecsam
- datblygu a chytundeb y Cyngor i Gynllun Cychwyn Cronfa Buddsoddi Ardrethi Annomestig Sir y Fflint
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Adrannau Cynllunio Sir y Fflint a Wrecsam ar gyfer Uned Cynllunio Parth Buddsoddi
- Recriwtio swyddogion arweiniol datblygu Parth Buddsoddi yng Nghynghorau Sir y Fflint a Wrecsam
- Cefnogi Achos Busnes Buddsoddi Knauf (prosiect a ariennir gan Gynllun Twf Gogledd Cymru)
- Hyrwyddo'r Parth Buddsoddi i fforymau a digwyddiadau ymgysylltu
- Cefnogi a datblygu partneriaethau allweddol, yn arbennig (a nodir yn fanylach yn adran 3.3.1 – 3.3.3):
 - Rhaglen Partneriaeth Arloesi/Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol
 - Rhaglen Datgarboneiddio Parth Buddsoddi
 - Trafnidiaeth i Gymru - Achos Busnes dros Drawsnewid Bysiau

3.2.2 Sgiliau

- Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol, Coleg Cambria a Phrifysgol Wrecsam yn datblygu prosiectau cyfnod cynnar
- Datblygu a chymeradwyo Cynllun Sgiliau Parth Buddsoddi
- Sefydlu Grŵp Sgiliau Parth Buddsoddi fel is-grŵp i'r Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol

3.2.3 Cymorth i Fusnesau neu Randdeiliaid

- Sefydlu perthynas â phartneriaid buddsoddi, tirfeddianwyr a datblygwyr allweddol
- Ymgysylltu â busnesau sydd â diddordeb mewn tyfu a buddsoddi yn Sir y Fflint a Wrecsam
- Dylunio cynllun grantiau bach ar gyfer busnesau
- Ymgysylltu â Phrifysgol Wrecsam a Choleg Cambria ar gysyniadau cymorth arloesi ar gyfer y gymuned fusnes

3.2.4 Seilwaith

- Paratoi achos busnes i'r Ganolfan Arloesi gan Airbus a Choleg Cambria

- Cynnig amlinellol ar gyfer seilwaith i ddatgloi parseli tir datblygu sy'n weddill ym Mhorth Glannau Dyfrdwy
- Ymgysylltu parhaus â thirfeddianwyr ar Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam ynghylch gofynion seilwaith
- Datblygu cysyniad ar gyfer cyfleuster Arloesi / BBaCh yn Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam
- Datblygu achos busnes ar gyfer rhaglen trawsnewid bysiau i fynd i'r afael ag anghenion gwasanaeth allweddol mewn safleoedd cyflogaeth yn Sir y Fflint a Wrecsam
- Sefydlu ffrwd waith ar gyfer Cyflawni Mesurau Lliniaru Ecolegol Strategol ar gyfer Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam

3.3. Rhaglenni i'w Caffael

Bydd y tair rhaglen a ganlyn yn cael eu cyflawni mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Er mwyn comisiynu'r prosiectau hyn, mae angen tendr drwy Gwerthwchi Gymru. Mae cwmpas y prosiectau hyn wedi'i nodi isod:

3.3.1 Partneriaeth Arloesi Diwydiannau Mawr / Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol Cymru

Galw am bartneriaeth o bartneriaid arloesi sefydledig gyda'r diwydiant i ddatblygu dichonoldeb Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Dylai'r cynnig ystyried sut y gall busnesau gweithgynhyrchu mawr gynyddu eu mabwysiadu o Ddysgu Peirianyddol a Deallusrwydd Artiffisial i gynyddu effeithlonrwydd gweithgynhyrchu, cynyddu cynhyrchiant a chryfhau eu cadwyni cyflenwi lleol. Dylai'r astudiaeth ddichonoldeb ddangos y cysyniad mewn cyfleusterau busnes a chyflwyno gweledigaeth a'r camau nesaf angenrheidiol i greu cyfleuster NMIC yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Dylai'r cysyniad ystyried arloesi ac ymgysylltu gweithgynhyrchu presennol yn y rhanbarth.

Disgwylir i'r astudiaeth ddichonoldeb gostio £150,000 ac chymryd 12 mis i'w chyflawni. Rhaid i bartneriaethau sy'n bidio ddangos eu profiad blaenorol, eu gallu a'u gallu gweithgynhyrchu i gael eu hystyried ar gyfer y comisiwn hwn.

3.3.2 Partneriaeth Datgarboneiddio Diwydiannol y Parth Buddsoddi - Datblygu Rhaglenni

Galw am bartneriaeth o bartneriaid Datgarboneiddio Diwydiannol i ymgymryd ag ymgysylltu diwydiannol a datblygu rhaglenni i osod rhaglen ddatgarboneiddio uchelgeisiol dros y 25 mlynedd nesaf. Bydd y rhaglen yn nodi'r prosiectau a'r ymyriadau allweddol sy'n angenrheidiol i gefnogi buddsoddiad y diwydiant mewn datgarboneiddio.

Croesewir cynigion gan gonsortïwm o bartneriaid sy'n awyddus i gydweithio i gyflawni datgarboneiddio diwydiannol trwy ystod o fesurau gan gynnwys trydaneiddio, tanwydd carbon isel ar gyfer dal gwres a charbon.

Bydd y rhaglen yn cael ei hariannu o gyllideb o £100,000 am gyfnod o 12 mis. Un allbwn allweddol o'r rhaglen yw gweledigaeth a map ffordd i gyflawni datgarboneiddio diwydiannol ar draws y Parth Buddsoddi, gan dynnu sylw at y cyfleoedd allweddol ar gyfer camau sylweddol tuag at ranbarth sero net.

3.3.3 Rhaglen Twf Diwydiannol wedi'i harwain gan arloesedd

Galw am ymarferwyr arloesi profiadol i ymgysylltu â busnes, llywodraeth a'r byd academiaidd - trwy'r dull helics triphlyg - i yrru arloesedd a datblygiad economaidd ar draws y Parth

Buddsoddi. Dylai'r Rhaglen fod yn rhagweithiol yn ei dull o sicrhau twf diwydiannol cymdeithasol ac amgylcheddol gyfrifol trwy arloesi a mabwysiadu technoleg newydd.

Dylai'r Rhaglen nodi dyluniad gweithredu uchelgeisiol ar gyfer cefnogi busnesau bach a'r cyllid a'r cyfleusterau angenrheidiol i gyflawni hyn. Dylai'r Rhaglen hefyd nodi'r dull gorau yn Sir y Fflint a Wrecsam i gefnogi ehangu busnesau bach neu fusnesau cyfnod cynnar yn ogystal ag ymgysylltu â busnesau bach a chanolig ar eu heriau twf a chynhyrchiant. Dylai'r Rhaglen archwilio'r ffordd orau o leoleiddio a thyfu cadwyni cyflenwi prif fusnesau gweithgynhyrchu'r rhanbarth.

Y gyllideb ar gyfer y gwaith hwn yw £150,000 a disgwylir iddo gymryd 12 mis. Allbwn allweddol y rhaglen yw dylunio rhaglen arloesi yn y dyfodol a'r cyllid a'r cyfleusterau angenrheidiol i'w chyflawni. Efallai y bydd y rhaglen yn troi at y Parth Buddsoddi am gyllid yn y dyfodol a dylid nodi unrhyw gais pellach yn Adroddiad y Rhaglen.

3.4. Dyraniadau Cyllid Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2

Mae'r tablau a ganlyn yn nodi dyraniadau cyllid y CCB, wedi'u trefnu yn ôl Thema ac sy'n dangos y dyraniadau cyfalaf (CDEL) a refeniw (RDEL) yn y blyneddoddd ariannol 2025-26 (yn dod i ben Mawrth 2026) a 2026-27 (yn dod i ben Mawrth 2027).

3.4.1 Seilwaith

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r prosiectau seilwaith allweddol ym Mlyneddoddd 1 a 2 yn ymwneud â:

- sefydlu rhaglen trawsnewid bysiau, a baratowyd gan Trafnidiaeth i Gymru ac y cytunwyd arni gan arweinyddion trafndiaeth Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam;
- Buddsoddiadau cyfalaf i gefnogi'r rhaglenni sgiliau ac arloesi;
- Buddsoddiadau cyfalaf i gefnogi twf safleoedd treth yng Nglannau Dyfrdwy a Wrecsam; a
- chyfraniad cyfalaf i brosiect Padeswood Sidings.

Disgrifiad o'r Ymyrraeth/prosiect	Ffocws Gofodol a Chodau Post	Swm Cyllid £	Blwyddyn 1 2025/26 (Gwir sefyllfa)			Blwyddyn 2 2026/27		
			CDEL	RDEL	Cyfanswm	CDEL	RDEL	Cyfanswm
Rhaglen Trawsnewid Bysiau, a gefnogi'r fel gwariant refeniw	Sir y Fflint a Wrecsam	£20,000,000	£0	£0	£0	£0	£2,250,000	£2,250,000
Buddsoddiad cyfalaf i gefnogi'r rhaglen trawsnewid bysiau	Sir y Fflint a Wrecsam	£4,500,000	£0	£0	£0	£0	£0	
Prosiect y Ganolfan Menter, Peirianneg ac Opteg: Cymorth Academaidd ac Allbwn Ymchwil a Datblygu Prifysgol Wrecsam - Offer yn yr EEOC	Wrecsam	£3,350,000	£0	£0	£0	£1,000,000	£0	£1,000,000
Canolfan Parodwydd Gweithgynhyrchu gydag Airbus + CC (Sir y Fflint)	Sir y Fflint	£17,600,000	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Canolfan Trawsnewid Diwydiant gydag AMRC (Wrecsam)	Wrecsam	£5,000,000	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Cymorth grant i ddatgloi safleoedd cyflogaeth allweddol, sy'n canolbwyntio ar Safleoedd Treth £	Wrecsam	£5,000,000	£0	£0	£0	£5,000,000	£0	£5,000,000
Wedi'i ddynnu i ddatgloi UtopiaCity neu seilwaith ehangach ar WIE								
Padeawood Sidings	Sir y Fflint	£2,000,000	£2,000,000	£0	£2,000,000	£0	£0	£0
Porth Wrecsam	Wrecsam	£5,000,000	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Porth Glannau Dyfrdwy (Pochin Goodman)	Sir y Fflint	£3,500,000	£0	£0	£0	£3,500,000	£0	£3,500,000
Ystad Ddiwydiannol Wrecsam	Wrecsam	£5,000,000	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Dim dyraniad prosiect penodol								

3.4.2 Ymchwil ac Arloesi

Mae'r ddau brosiect ymchwil a datblygu allweddol yn bartneriaeth â Phrifysgol Bangor i archwilio cyfleoedd i wella cysylltedd digidol a data ar draws Sir y Fflint a Wrecsam a dyraniadau cyfalaf i brosiectau sy'n canolbwyntio ar ymchwil a datblygu gyda busnesau lleol. Mae'r cyfle hwn yn canolbwyntio ar faes o arbenigedd academiaidd ym Mhrifysgol Bangor – gan hyrwyddo a gwella ymhellach y Ganolfan Ragoriaeth Prosesu Signalau Digidol, gyda chefnogaeth Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Disgrifiad o'r Ymyrraeth/prosiect	Ffocws Gofodol a Chodau Post	Swm Cyllid IZ	Blwyddyn 1 2025/26 (Gwir sefyllfa)			Blwyddyn 2 2026/27		
			CDEL	RDEL	Cyfanswm	CDEL	RDEL	Cyfanswm
Prosiect Data Prifysgol Bangor	Sir y Fflint a Wrecsam Gogledd Cymru	£1,017,995	£59,550	£59,550	£119,100	£59,550	£59,550	£119,100
Grantiau cymorth busnes dan arweiniad Cynhorau Sir y Fflint a Wrecsam	Sir y Fflint a Wrecsam	£7,909,550	£150,000	£0	£150,000	£950,000	£0	£950,000
Cyfanswm		£8,927,545	£209,550	£59,550	£269,100	£1,009,550	£59,550	£1,069,100

3.4.3 Cymorth Busnes

Mae elfennau allweddol y rhaglen cymorth busnes yn canolbwyntio ar gefnogi busnesau gyda thalebau arloesi, a gydlynir gan Brifysgol Wrecsam, rhaglen grantiau cyfalaf (gan gynnwys micrograntiau) ar gyfer busnesau, a weinyddir ac a reolir gan y ddau Gyngor.

Disgrifiad o'r Ymyrraeth/prosiect	Ffocws Gofodol a Chodau Post	Swm Cyllid IZ	Blwyddyn 1 2025/26 (Gwir sefyllfa)			Blwyddyn 2 2026/27		
			CDEL	RDEL	Cyfanswm	CDEL	RDEL	Cyfanswm
Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, Talebau, Prosiectau Mini-Llawn, 130-140 talebau y flwyddyn	Sir y Fflint a Wrecsam	£4,675,300	£0	£667,900	£667,900	£200,000	£467,900	£667,900
Grantiau ar gyfer Twf Gweithgynhyrchu	Sir y Fflint a Wrecsam	£6,500,000	£6,500,000		£6,500,000			
Cyflwyno grantiau ar gyfer twf gweithgynhyrchu	Sir y Fflint a Wrecsam	£8,100,000	£950,000	£0	£950,000	£950,000	£0	£950,000
Cydluno treftadau cymorth busnes presennol a chymorth micro-grant	Sir y Fflint a Wrecsam	£950,000	£0	£0	£0	£50,000	£50,000	£100,000
		£20,225,300	£7,450,000	£667,900	£8,117,900	£1,200,000	£517,900	£1,717,900

3.4.4 Sgiliau

Mae trafodaethau manwl yn parhau gyda'r partneriaid sgiliau craidd (Coleg Cambria a Phrifysgol Wrecsam) ynglŷn â dyluniad penodol y rhaglen sgiliau gychwynnol. Y bwriad yw cyflwyno ystod o gyrsiau sgiliau a mentrau cyflogaeth sy'n wynebu busnesau sy'n mynd i'r afael ag anghenion y diwydiant ac yn cefnogi'r don nesaf o bobl sy'n gadael yr ysgol i ymgysylltu â'r rolau a grëir gan dwf a chyfleoedd yn y Parth Buddsoddi.

Disgrifiad o'r Ymyrraeth/prosiect	Ffocws Gofodol a Chodau Post	Swm Cyllid IZ	Blwyddyn 1 2025/26 (Gwir sefyllfa)			Blwyddyn 2 2026/27		
			CDEL	RDEL	Cyfanswm	CDEL	RDEL	Cyfanswm
- Ymgysylltu STEM Cyn 16 gydag Ysgolion a sefydliadau'r Trydydd Sector - Rhaglen Interniaeth - Academi Sgiliau - Buddsoddiad Cyfalaf yn safleoedd Coleg Cambria yng Nglangannau Dyfrdwy a'r Bersham ar gyfer gwell cyfleoeddau Prentisiaethau a darpariaeth cyswllt ysgolion - Dyraniad Cyfalaf ar gyfer Cyflawni Sgiliau, gan gynnwys cyn-16	Sir y Fflint a Wrecsam	£7,851,555	£0	£262,000	£262,000	£2,200,000	£846,222	£3,046,222
- Bwrddampoddd Sgiliau ar draws ym maeu Gweithgynhyrchu Uwch, Diwydiant 4.0 a Digidol, gyda chynnwys sy'n berthnasol i'r sector wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â diwydiant - Cyd-greu datblygiad newydd a chyd-greu o offrymau cyfredol i gefnogi gofynion sgiliau sector-benodol	Sir y Fflint a Wrecsam	£8,029,600	£0	£336,700	£336,700	£604,500	£941,200	£1,545,700
- Rhaglen hyfforddi sgiliau entrepreneuriaid wedi'i datblygu ar gyfer anghenion rhanbarthol / sector-benodol	Sir y Fflint a Wrecsam	£1,200,000	£0	£120,000	£120,000	£0	£120,000	£120,000
- Cynllun cymhelliant prentisiaethau, sy'n cefnogi recriwtio a chadw Prentisiaethau gweithgynhyrchu uwch / Digidol, Prentisiaethau Peirianteg Uwch (L4) a Phrentisiaethau Gradd (L5/L6) - Prentisiaethau Gradd gan gynnwys cyd-greu rhaglen MSc Rheoli Peirianteg a chymhellion i gefnogi ac ysgogi'r galw am raglenni - PhDs a MRes	Sir y Fflint a Wrecsam	£4,486,000	£0	£373,000	£373,000	£0	£373,000	£373,000
		£21,567,155	£0	£1,091,700	£1,091,700	£2,804,500	£2,280,422	£5,084,922

3.4.5 Gweinyddu a Chyflawni Rhaglenni

Dros ddeng mlynedd y Parth Buddsoddi, mae cyfanswm o £6.4m ar gael i gefnogi gweinyddiaeth y rhaglen. O'r dyraniad hwn, dyrennir £220,000 y flwyddyn i Gyngor Sir y Fflint, £220,000 y flwyddyn i Gyngor Wrecsam a £200,000 y flwyddyn i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Uchelgaïs Gogledd Cymru) i ymgymryd â'i rôl statudol fel y corff atebol. Yn ogystal, mae £1m i gefnogi'r Uned Gynllunio yng Nghynghorau Sir y Fflint a Wrecsam ac adnodd pellach i gefnogi astudiaethau a phrosiectau yn y Parth Buddsoddi. Mae'r tri cyntaf o'r prosiectau hyn wedi'u hamlinellu uchod.

Disgrifiad o'r Ymyrraeth/prosiect	Ffocws Gofodol a Chodau Post	Swm Cyllid £	Blwyddyn 1 2025/26 (Gwir sefyllfa)			Blwyddyn 2 2026/27		
			CDEL	RDEL	Cyfanswm	CDEL	RDEL	Cyfanswm
Cyngor Sir y Fflint	Sir y Fflint	£2,200,000		£220,000	£220,000		£220,000	£220,000
Cyngor Wrecsam	Wrecsam	£2,200,000		£220,000	£220,000		£220,000	£220,000
CBC	Sir y Fflint a Wrecsam	£2,000,000		£200,000	£200,000		£200,000	£200,000
Uned Gynllunio	Sir y Fflint a Wrecsam	£1,000,000		£200,000	£200,000		£200,000	£200,000
Astudiaethau	Sir y Fflint a Wrecsam	£930,000		£195,000	£195,000		£150,000	£150,000
		£9,330,000		£1,035,000	£1,035,000		£990,000	£990,000

3.6. Cyfathrebu

Bydd y Cynllun Cyflawni Blyneddol yn nodi'r strategaethau allweddol a ganlyn:

- 3.6.1 **Strategaeth Cyfathrebu**, i ddyrannu'r adnodd a nodi'r cyfleoedd cyfathrebu allweddol ym Mlwyddyn 1 a 2 y Parth Buddsoddi. Canolbwynti i ddechrau ar y cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â lansio'r rhaglen ac yn ddiweddarach yn canolbwyntio ar gyhoeddiadau prosiectau a datblygiadau'r Parth Buddsoddi. Bydd y Strategaeth Cyfathrebu yn cael ei chytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac yn cael ei rheoli gan swyddog cyfathrebu'r CBC gyda chefnogaeth swyddogion cyfathrebu yng Nghynghorau Sir y Fflint a Wrecsam.
- 3.6.2 **Strategaeth Ymgysylltu**, i nodi RACI ar gyfer sefydliadau allweddol a rhanddeiliaid i'r Parth Buddsoddi. Bydd y Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei chytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac yn cael ei rheoli gan arweinwyr y rhaglen yn y CBC gyda chefnogaeth swyddogion arweiniol y rhaglen Parth Buddsoddi yn y ddau Gyngor.
- 3.6.3 **Strategaeth Marchnata**, i ddatblygu'r negeseuon, brandio a deunyddiau marchnata sydd ar gael i'r Parth Buddsoddi ac i amlinellu sut bydd y Parth Buddsoddi yn cael ei hyrwyddo ochr yn ochr â phartneriaid allweddol. Bydd y Strategaeth Marchnata yn cael ei chytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac yn cael ei rheoli gan arweinwyr cyfathrebu yn y CBC gyda chefnogaeth swyddogion cyfathrebu yn y ddau Gyngor.

3.7. Penderfyniadau Allweddol y Parth Buddsoddi

Mae'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y Parth Buddsoddi wedi'i amlinellu yn y Cytundeb Rhyng-Awdurdod. Deallir yr egwyddor o wneud penderfyniadau yn gorwedd gyda'r corff sy'n ymgymryd â sicrwydd y prosiect, h.y. bydd prosiectau a sicrheir gan y CBC yn cael eu penderfynu gan y CBC (neu'r Is-bwyllgor Lles Economaidd) a bydd prosiectau a sicrheir gan y Cyngor partner yn cael eu cymeradwyo am fuddsoddiad gan yr awdurdod lleol perthnasol. Bydd rhaglenni mawr a ddirprwyir gyda'r Parth Buddsoddi yn dod gyda Chytundeb Cyllid Grant rhwng y CBC a'r awdurdod lleol a fydd yn nodi sut y dylid gwneud penderfyniadau ac adrodd.

Thema	Strwythur y Penderfyniad
Rhaglen	Penderfyniad yn cael ei wneud gan gorff atebol am wariant (CBC, Sir y Fflint a Wrecsam ar gyfer defnydd o'i arian ei hun yn unol â'r CRhA) Disgwylir i'r partneriaethau caffael gael eu tendro a'u dyfarnu gan y CBC/Is-bwyllgor Lles Economaidd.
Seilwaith	Prosiectau mawr a gymeradwyir gan y CBC a phrosiectau islaw'r trothwy y cytunwyd arno yn cael eu cymeradwyo gan y ddau Gyngor oni bai bod y Cynghorau yn gwneud cais am y sicrwydd a bod y penderfyniad yn cael ei wneud gan y CBC.
Cymorth Busnes	Cymeradwyaeth gan y sefydliad sy'n ymgymryd â'r sicrwydd.
Ymchwil a Datblygu	CBC i gymeradwyo'r prosiect Data, Cynghorau a CBC i bennu gwneud penderfyniadau ar grantiau a ddyfernir i fusnesau.
Sgiliau	Cymeradwyaeth gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd, drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ac Is-grŵp Sgiliau'r Parth Buddsoddi.

3.8. Caffael Parth Buddsoddi

Y disgwyliad yw y bydd y CBC a'r ddau Gyngor lletya yn dilyn eu rheolau sefydlog contract caffael neu eu Polisi Caffael eu hunain wrth wario adnoddau'r Parth Buddsoddi ar wariant allweddol. Os yw'r CBC yn mynnu bod ei bolisi caffael ei hun yn cael ei ddilyn gan unrhyw drydydd parti, bydd yn nodi hyn yn y Cytundeb Cyllido Grantiau sydd wedi'i alinio â'r buddsoddiad dan sylw.

Dylai busnesau ddilyn gofynion y Cytundeb Cyllido Grantiau ac o leiaf ddilyn ysbryd caffael y sector cyhoeddus ac wrth gyflawni prosiectau gyda chefnogaeth y Parth Buddsoddi nodi sut maent yn bodloni amcanion polisi ehangach y Parth Buddsoddi o ran partneriaethau cymdeithasol, gan roi sylw arbennig i'r Datganiad Gwaith Teg.

Y disgwyliad yw bod yr holl wariant dros £2500 yn cael ei dystiolaethu gyda thri dyfynbris a bod gweithgaredd a gomisiynir sydd dros £25,000 yn cael ei hysbysebu naill ai drwy GwerthwchiGymru neu lwyfan neu fframwaith priodol arall.

3.9. Cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol

Bydd cymeradwyo'r adroddiad hwn yn galluogi i'r ddogfen CCB gael ei llofnodi gan Uwch Swyddog Cyllid (A151) y CBC. Bydd cymeradwyaeth i'r CCB gan y ddwy Lywodraeth yn galluogi i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth terfynol a'r Llythyr Cynnig Cyllid Grant gael eu cyhoeddi gan Lywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU. Efallai y bydd angen addasu'r CCB fel y mae wedi'i gyflwyno. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadrodd i'r Gweithgor.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl y Gweithgor Parth Buddsoddi

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Bydd y CCB yn un o'r llwyfannau allweddol ar gyfer cyflawni a pherfformiad. Mae angen i'r CBC ystyried y cynllun yn y cyd-destun hwn a sicrhau ei fod yn fodlon â'r rhaglen a'r allbynnau arfaethedig.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol yn gam allweddol yn llywodraethu'r rhaglen Parth Buddsoddi. Mae canllawiau'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r CCP gael ei lofnodi gan Swyddog Adran 151 a'i gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Byddaf yn parhau i gydweithio â chydweithwyr i sicrhau bod yr CCP yn cael ei gyflawni yn ôl yr angen."

Gweithgor Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

Cylch Gorchwyl Drafft, Tachwedd 2025

1. Awdurdod/ 2. Cyfansoddiad	Mae Porth 3 Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn dynodi'r trefniadau Llywodraethu ar gyfer cyflawni'r Parth Buddsoddi. Uchelgais Gogledd Cymru, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yw'r Corff Atebol ar gyfer cyllid y Parth Buddsoddi gan y Llywodraeth a bydd yn dirprwyo cyfrifoldebau corff atebol i'w Is-bwyllgor Lles Economaidd.
3. Atebolrwydd	Bydd y Gweithgor, drwy ei Gadeirydd, yn adrodd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a/neu ei Is-bwyllgor Lles Economaidd. Bydd Aelodau'r Gweithgor (Arweinyddion Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) yn atebol i'w gilydd i sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn gydweithredol, yn gynhyrchiol, yn gynaliadwy ac yn gefnogol. Bydd Adroddiadau Cynllun Cyflawni Blynnyddol y cytunir arnynt yn cael eu cyflwyno gan Gadeirydd y Gweithgor i Is-bwyllgor Lles Economaidd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd Bydd y Gweithgor hefyd yn ceisio diweddarau partneriaid eraill fel y bo'n briodol.
4. Swyddogaethau a chyfrifoldebau	Bydd y Gweithgor yn derbyn Cynlluniau Cyflawni Blynnyddol drafft yn Ch3 ym mhob blwyddyn ariannol gan Uwch Swyddog Cyfrifol y Parth Buddsoddi a Rheolwr Rhaglen y Parth Buddsoddi. Bydd y Cynllun Cyflawni Blynnyddol yn cael ei baratoi gan y Rheolwr Rhaglen mewn ymgynghoriad agos â Rheolwyr Parth Buddsoddi Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a swyddogion ehangach sy'n ymwneud â chyflawni'r Parth Buddsoddi. Mae'r Gweithgor Parth Buddsoddi yn gyfrifol am y gweithgareddau a ganlyn: • Adolygu cynnydd cyflawni'r Parth Buddsoddi; • Adolygu a chymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol drafft; • Cyflwyno'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol i Is-bwyllgor Lles Economaidd y CBC i'w gymeradwyo'n derfynol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; ac • Adolygu cyfathrebu a chyfleoedd hyrwyddo.
5. Aelodaeth	Bydd y Gweithgor yn cynnwys dau aelod parhaol a fydd yn cyfarfod yn flynyddol neu'n gyfnodol fel arall fel y cytunir. Y ddau aelod yw: • Arweinydd Cyngor Sir y Fflint; ac • Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Ystyrir bod cworwm yn y Gweithgor pan fydd y ddau aelod yn cymryd rhan yn y cyfarfod. Os nad yw aelod yn gallu mynychu, gall yr aelod gynnig, yn ddelfrydol dri diwrnod neu fwy cyn y cyfarfod, i ddirprwy fynychu gyda chytundeb y Cadeirydd ar ran y Gweithgor. Diben y dull hwn yw cynnal cydlynid y Gweithgor. Rhaid i unrhyw ddirprwy a gynigir fod yn unigolyn sy'n gwbl gymwys, yn ymwybodol ac

	wedi ei hysbysu o'r materion i'w trafod yn y cyfarfod, fel ei fod yn gallu rhoi mewnbwn llawn drwy ddarparu'r arbenigedd angenrheidiol i drafod materion allweddol.
6. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad	Wrth gynnal ei fusnes, bydd y Gweithgor bob amser yn ceisio hyrwyddo ei ymrwymiad i'r Gymraeg ac i gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy greu amgylchedd sy'n gynhwysol i'w aelodau a'i bartneriaid gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ac aelodau bregus o'n cymuned.
7. Cyfathrebu	Bydd y Cadeirydd yn cytuno ar brotocolau cyfathrebu ar gyfer rhannu a lledaenu gwybodaeth o fewn y Gweithgor ac yn gyhoeddus. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd, fel sy'n ofynnol ac fel y bo'n briodol, fel y nodir yn adran 2 uchod. Bydd arddull cyfathrebu agored yn cael ei fabwysiadu ar faterion Parth Buddsoddi rhwng ac ar ran partneriaid y Parth Buddsoddi.
8. Gweinyddu'r cyfarfodydd ac adrodd iddynt	Bydd y Gadeiryddiaeth yn symud rhwng y ddau aelod bob yn ail. Bydd rhaglenni a phapurau'n cael eu cyflwyno o leiaf 5 diwrnod busnes llawn cyn cyfarfod. Bydd nodyn o holl gyfarfodydd y Gweithgor yn cael ei gofnodi'n ffurfiol a'i gyflwyno i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.
9. Gwrthdaro buddiannau	Bydd yn ofynnol i aelodau'r Gweithgor ddatgan unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro wrth iddynt godi. Bydd gofyn iddynt gadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, fel y'u lluniwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a elwir yn fwy cyffredin yn Egwyddorion Nolan. Gan sicrhau dull cytbwys, bydd gwrthdaro buddiannau yn cael ei reoli yn unol â chyfansoddiad y CBC. Bydd angen Datganiadau Gwrthdaro Buddiannau ar ddechrau rhaglen pob cyfarfod. Bydd holl gofnodion a phapurau cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi felly bydd unrhyw Wrthdaro Buddiannau yn dryloyw yn gyhoeddus.
10. Adolygu	Bydd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Gweithgor Parth Buddsoddi yn cael eu hadolygu'n flynyddol.